



Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

### Parhad a Newid - Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **16 Mai 2013**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **8 Awst 2013**

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar adfywio perthynas Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector yng Nghymru, ac mae'n rhoi ystyriaeth benodol i:

1. Cadarnhau ac adnewyddu'r berthynas;
2. Cynnal seilwaith y Trydydd Sector;
3. Ymgysylltu;
4. Cydweithio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol;
5. Compactau Lleol; a
6. Dogfennau fframwaith.

## Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn naill ai drwy'r holiadur yng nghefn y ddogfen neu drwy lenwi'r ffurflen ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan yn: <http://wales.gov.uk/consultations/housingcommunity/welsh-government-third-sector-relationships/>

Hefyd, cynhelir tri digwyddiad Ymgynghori ar draws Cymru a fydd yn gyfle pellach i ymateb.

29 Mai, Swyddfa Llywodraeth Cymru,  
Penllergaer

6 Mehefin, Swyddfa Llywodraeth Cymru,  
Llandudno

25 Mehefin, Swyddfa Llywodraeth Cymru,  
Merthyr Tudful

Mae manylion llawn y digwyddiadau hefyd ar gael o'n gwefan ni.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae rhagor o wybodaeth y gallech ei chael yn ddefnyddiol i'w gweld ar dudalennau'r Trydydd Sector ar wefan Llywodraeth Cymru drwy ddilyn y ddolen hon: <http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/voluntarysector/?lang=cy>

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:  
Y Tîm Polisi Cymunedol a'r Trydydd Sector  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

e-bost:

[WGthirdsectorconsultation@cymru.gsi.gov.uk](mailto:WGthirdsectorconsultation@cymru.gsi.gov.uk)

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyfrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# **Parhad a Newid – Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru**

## **Dogfen Ymgynghori 2013**

Mae'r Ddogfen Ymgynghori hon yn ymwneud ag un o'r partneriaethau pwysicaf yng Nghymru – rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru.

Rydym yn defnyddio'r term Trydydd Sector i gwmpasu'r miloedd o grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol sydd mor bwysig ym mron pob agwedd ar fywyd yng Nghymru. Yn ogystal â'r staff a gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y sefydliadau hyn, mae'r sector yn cynnwys llawer o bobl eraill hefyd sy'n rhoi o'u hamser a'u hegni'n wirfoddol yn eu cymunedau, drwy eu lle gwaith neu drwy gyfrannu at fentrau cenedlaethol neu ryngwladol.

Mae'r Trydydd Sector yng Nghymru'n amrywiol iawn. Gwelir yr amrywiaeth honno hefyd yn y berthynas rhwng y sector a Llywodraeth Cymru. Mae rhai sefydliadau'n dibynnu'n helaeth ar arian y Llywodraeth tra bo eraill nad ydynt yn cael bron dim cymorth uniongyrchol. Grwpiau bach lleol yw nifer mawr o'r sefydliadau yn y sector ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at les dinasyddion.

Aeth pum mlynedd heibio ers i ni gyhoeddi'r adolygiad mawr diwethaf o'r berthynas hon. Cafwyd newidiadau arwyddocaol yn y cyfamser sy'n effeithio ar y ffordd yr ydym yn cydweithio. Yn benodol, mae'r sefyllfa economaidd yn cynnig her fwy o lawer, gan wneud bywyd yn fwy anodd, yn enwedig i'n teuluoedd a'n cymunedau tlotaf.

Mae rhan hanfodol i'w chwarae gan y Trydydd Sector wrth adeiladu cymunedau cydnherth a helpu pobl i ymdopi yn y cyfnod hwn. Mae'n bwysicach byth yn awr fod gwaith ac adnoddau'n cael eu cydgysylltu a'u defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol. Yn y ddogfen hon rydym yn cyflwyno ein cynigion i sicrhau bod cefnogaeth dda ar gael o hyd i'r Trydydd Sector i wireddu ei botensial a bod gennym ffyrdd effeithiol o reoli'r berthynas hanfodol hon.

Bydd angen i mi wneud penderfyniadau pwysig ynghylch y materion hyn yn ddiweddarach eleni. Cyn hynny, rwyf am glywed barn pobl a sefydliadau o bob math am y ffordd ymlaen sydd wedi'i chynnig yn y ddogfen hon. Manteisiwch ar y cyfle hwn i roi gwybod i ni am eich barn.

**Huw Lewis AC**

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

# 1. Cyflwyniad

1.1. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw edrych o'r newydd ar y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ailddatgan pwysigrwydd y Trydydd Sector yng Nghymru gan ymateb hefyd i newidiadau a datblygiadau pwysig yn y blynyddoedd diwethaf. Rydym am ddysgu o'r profiad o gynnal perthynas waith gadarn er mwyn sicrhau cyfleoedd i gydweithio'n well yn y dyfodol.

1.2. Mae amrywiaeth eang o faterion a allai gael eu trafod yn yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, byddwn yn canolbwyntio ar nifer o faterion allweddol sydd wrth wraidd y berthynas. Nid ydym yn bwriadu edrych yn fanwl ar y nifer mawr o gysylltiadau rhwng gwahanol sefydliadau'r Trydydd Sector a Llywodraeth Cymru: (er engraifft y rhai sy'n perthyn i Menter Gymdeithasol, sydd yn gyfrifoldeb y Gwenidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafridiaeth) mae hyn yn cynnwys trefniadau ariannu sy'n cael eu rheoli – ac a fydd yn parhau i gael eu rheoli – gan nifer o adrannau'r Llywodraeth. Er hynny, mae goblygiadau i'r Trydydd Sector cyfan yn y materion a'r cynigion sydd wedi'u trafod yma, felly mae'n bwysig bod cynifer o bobl â phosibl yn gwybod am yr ymgynghoriad hwn.

1.3. Yn y cyflwyniad hwn rydym yn disgrifio sail y trefniadau presennol ac wedyn yn nodi rhai o'r ystyriaethau sy'n peri i ni feddwl bod angen ailystyried rhai agweddau ar y berthynas. Mae patrwm tebyg i'r penodau sy'n dilyn: maent yn disgrifio'r sefyllfa bresennol yn gyntaf ac wedyn yn egluro'r sail resymegol o blaid newid ac yn amlinellu cynigion ar gyfer ffyrdd newydd o weithio. Mae cwestiynau ar ddiwedd pob pennod i'ch helpu i ffurfio'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

## Sail y Berthynas

1.4. Mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Sector Gwirfoddol wedi'i sefydlu drwy'r gyfraith. Sefydlwyd Cynllun y Sector Gwirfoddol dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac wedyn dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn Atodiad 1; mae'n ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn gwneud cynllun sy'n dangos sut y maent yn bwriadu hyrwyddo buddiannau sefydliadau gwirfoddol perthnasol wrth arfer eu swyddogaethau ac yn mynnu eu bod yn ymgynghori â'r sefydliadau gwirfoddol perthnasol y maent yn credu ei bod yn briodol ymgynghori â nhw cyn gwneud, ail-wneud neu adolygu Cynllun y Sector Gwirfoddol. Y diffiniad o sefydliadau gwirfoddol perthnasol ("relevant voluntary organisations") yn adran 74(2) yw cyrff (heblaw awdurdodau lleol) sy'n cynnal eu gweithgareddau i gyflawni bwriad heblaw gwneud elw ac sy'n dod â budd uniongyrchol neu anuniongyrchol i Gymru gyfan neu unrhyw ran o Gymru (pa un a ydynt yn dod â budd i unrhyw ardal arall neu beidio).

1.5. Mae'r Cynllun yn disgrifio'r egwyddorion a mecanweithiau sy'n cynnal ac yn hybu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector. Mae'r rhain yn cynnwys:

- diffiniad o'r Sector y cytunwyd arno;
- ymrwymiad i gynnal partneriaeth a deialog ac i gydweithio;

- fframwaith ar gyfer ymgysylltu sy'n cynnwys Cyngor Partneriaeth a chyfarfodydd rhwng Gweinidogion Cymru a chynrychiolwyr y sector;
- cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhwydwaith o sefydliadau "seilwaith" sy'n cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol ledled Cymru;
- cymorth ar gyfer gwirfoddoli a datblygu cymunedol;
- *Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector* sefydledig;
- Adroddiad Blyneddol i'w baratoi drwy ymgynghori â'r sector ar berfformiad ar sail y Cynllun.

1.6. Cafodd Cynllun y Sector Gwirfoddol ei adolygu ddiwethaf yn 2004 ac mae'r berthynas wedi parhau i dyfu yn y deng mlynedd diwethaf. Yn Ionawr 2008 cyhoeddwyd *Y Trydydd Dimensiwn – Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol*. Roedd y ddogfen hon wedi sefydlu'r defnydd o'r term "Trydydd Sector" sy'n fwy eang a chynhwysol na "Sector Gwirfoddol" ac roedd hefyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o natur a rôl y Trydydd Sector yng Nghymru.

1.7. Mae'r sail ar gyfer ariannu'r sefydliadau seilwaith yng Nghytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector. Cafodd y Cytundeb Partneriaeth ei adolygu yn 2012 a chytunwyd ar gyllid dros dro ar gyfer WCVA, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol a'r Canolfannau Gwirfoddol hyd at ddiwedd Mawrth 2014.

## **Datblygu a Newid**

1.8. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cwmpasu'r holl ddogfennau allweddol sydd wedi'u nodi uchod a gyhoeddwyd er 2000: Cynllun y Sector Gwirfoddol; Y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector; *Y Trydydd Dimensiwn*; a Chytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector. Mae llawer o gynnwys y dogfennau hyn yn ddilys o hyd.

1.9. Er hynny, credwn fod angen mwy o ystyriaeth i rai newidiadau yn y blyneddau diwethaf a bod angen diweddarau'r dogfennau allweddol drwy gynnwys y newidiadau yn y berthynas. Felly rydym am ddatblygu "fframwaith polisi" newydd ar sail Cynllun Sector Gwirfoddol diwygiedig a fydd yn ailddatgan ein partneriaeth â'r Trydydd Sector, a fydd yn gymwys i'r amgylchiadau presennol, ac a fydd mor addas ac effeithiol â phosibl. Yn y paragraffau nesaf rydym yn disgrifio'r prif newidiadau sy'n effeithio ar y berthynas hon yn ein barn ni.

## *Rhaglen Lywodraethu*

1.10. Rhaid nodi nad oes mynegiant sylweddol o bolisi presennol Llywodraeth Cymru yn y prif ddogfennau fframwaith cyfredol. Mae sefydliadau'r Trydydd Sector yn cyfrannu'n helaeth at gyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd yn 2011 yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, gan gynnwys meysydd polisi allweddol e.e. Trechu Tlodi; Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus; Gofal Iechyd ar gyfer yr 21ain Ganrif; Cydraddoldeb; yr Amgylchedd a Chynaliadwydd.

1.11. Mae'n bwysig bod holl amrywiaeth y gweithgareddau hyn yn cael ei chydabod yn llawn. Hoffem fynd gam ymhellach a chreu cyfleoedd newydd i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan y Trydydd Sector at y Rhaglen Lywodraethu a'r polisïau a chamau gweithredu sy'n deillio ohoni.

1.12. Mae un enghraifft bwysig yn ymwneud ag effaith diwygio lles. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o effaith debygol y newidiadau presennol mewn lles a budd-daliadau ar bobl sy'n agored i niwed yng Nghymru. Rydym am sicrhau bod modd cael cyngor, cymorth ac amrywiaeth o wasanaethau allweddol ym mhob ardal. Bydd rhaglenni Llywodraeth Cymru fel Cymunedau yn Gyntaf a Teuluoedd yn Gyntaf yn cyfrannu at hyn, yn enwedig yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae rôl bwysig i'r Trydydd Sector yn y rhaglenni hyn, ond mae potensial mwy o lawer yn y sector. Rydym am gynnig her a chefnogaeth i grwpiau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol er mwyn iddynt wneud popeth yn eu gallu i'n helpu i adeiladu cymunedau cydnerth ledled Cymru.

### *Pwysau ar Arian Cyhoeddus*

1.13. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn llawn her. Ar hyn o bryd ni ellir rhag-weld beth fydd lefelau ariannu cyhoeddus yn y dyfodol ond mae'n bosibl y bydd angen mwy o arbedion. Os felly, mae'n anochel y bydd effaith ar rai sefydliadau yn y Trydydd Sector sy'n dibynnu ar arian cyhoeddus i unrhyw raddau.

1.14. Mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd angen i ni ailalinio cymorth i'r Trydydd Sector wrth geisio dod o hyd i ffyrdd newydd o ddiwallu anghenion a gwneud gwell defnydd o adnoddau llai yn y sector cyhoeddus.

1.15. Dyma'r amser priodol i ailasesu'r ffordd yr ydym yn cynorthwyo'r Trydydd Sector yng Nghymru, gan sicrhau'r effaith fwyaf posibl o'r cyllid sydd ar gael er mwyn pobl, cymunedau a'r Trydydd Sector.

1.16. Cafwyd datblygiadau pwysig yn y blynyddoedd diwethaf o ran y ffordd o benderfynu ar y defnydd o arian cyhoeddus a sut y mae grantiau a chontractau'n cael eu rheoli. Drwy ddatblygu Canolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru ceir cyfraniad pwysig at sicrhau bod grantiau gan Lywodraeth Cymru yn cael eu rheoli'n deg a chyson, a hybu llywodraethu da ym mhob sefydliad sy'n derbyn cyllid grant. Rhaid sicrhau ein bod wedi ystyried y datblygiadau hyn yn ein perthynas waith â'r sector ac mewn dogfennau allweddol fel *Y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector*.

### *Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithio Rhanbarthol*

1.17. Cafwyd datblygiadau pwysig yn y blynyddoedd diwethaf yn y ffordd o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac yn y strwythurau sy'n helpu i gynnal a chydgysylltu'r cyflenwi hwnnw. Mae buddiant sylweddol gan y Trydydd Sector yn y datblygiadau hyn ac mae'n bwysig ein bod yn glir a chyson ynghylch ein ffordd o gynnwys y sector yn awr mewn strwythurau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

1.18. Mae sefydlu patrwm cydweithredol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar sail chwe rhanbarth (Gogledd Cymru; Gwent; Cwm Taf; Bae'r Gorllewin;

y Canolbarth a'r Gorllewin; Caerdydd a'r Fro) yn neilltuol o bwysig yn hyn o beth. Mae sefydliadau'r Trydydd Sector, gan gynnwys Cyngorau Gwirfoddol Sirol, yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o brosiectau cydweithredol yn y rhanbarthau hyn yn barod, ond mae cyfle i ddatblygu'r dull gweithredu hwn ymhellach. Ar yr un pryd mae angen cael mwy o eglurder a chysondeb ynghylch cynrychiolaeth y sector mewn fforymau allweddol, gan barchu annibyniaeth ac amrywiaeth y sector.

### *Effaith Technoleg*

1.19. Mae technoleg wedi datblygu'n gyflym yn y blynyddoedd diwethaf gan effeithio ar bob rhan o gymdeithas a sawl agwedd ar fywyd pob dydd. Felly mae angen ystyried beth yw'r ffyrdd gorau o gyfathrebu ac ymgysylltu â'r Trydydd Sector gan gofio am y defnydd a geir eisoes o dechnoleg gwybodaeth a chyfryngau cymdeithasol, a'r heriau sy'n gysylltiedig â hynny. Gall hyn gynnwys yr angen am fuddsoddi ychwanegol mewn rhai achosion a chyfleoedd i gael arbedion a mwy o effeithlonrwydd mewn eraill.

### *Deddfwriaeth*

1.20. Mae Cymru wedi mynd drwy newidiadau mawr o ran deddfwriaeth sy'n sicrhgu effeithio'n uniongyrchol ac anuniongyrchol ar ein perthynas â'r Trydydd Sector yn y blynyddoedd nesaf. Roedd y refferendwm yn 2011 wedi gweithredu darpariaethau a oedd wedi'u gwneud yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 i roi pwerau deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud Deddfau Cynulliad yng nghyswllt materion sydd wedi'u datganoli. Bellach gall y Cynulliad wneud deddfau i Gymru ar faterion fel ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, trafnidiaeth, yr amgylchedd a llywodraeth leol – meysydd y mae sefydliadau'r Trydydd Sector yn ymddiddori'n fawr ynddynt.

1.21. Er enghraifft, roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac yn sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer monitro a gofodi cydymffurfiaeth â safonau a fydd yn effeithio ar y sector.

1.22. Yn yr un modd, cafwyd effaith ar y Trydydd Sector a'i berthynas â Llywodraeth o ganlyniad i ddyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a gafodd ei chreu yn 2011 o dan y ddeddf honno. Un o'u gofynion yw bod awdurdodau perthnasol yng Nghymru'n cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a datganiad i egluro'r camau y maent wedi'u cymryd, neu y byddant yn eu cymryd, i gyflawni pob un o'r amcanion ac i fonitro'r cynnydd ar eu cyflawni.

1.23. Enghraifft arall yw compactau rhwng Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector. Mae deddfwriaeth newydd yn cael ei hystyried i hybu'r defnydd o gompactau o'r fath yng Nghymru ac mae ymchwil wedi'i chomisiynu i gyfrannu at benderfyniadau ar hyn yn y dyfodol. Gan fod cysylltiad agos rhwng y materion hyn, byddwn yn gofyn am eich barn am ddyfodol Compactau hefyd yn yr ymgynghoriad hwn. Mae mwy o wybodaeth am hyn ym Mhennod 6.

## *Dysgu o Brofiad*

1.24. Wrth ystyried y goblygiadau o'r newidiadau a datblygiadau hyn i'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector, hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i fyfyrïo ar y profiad a gafwyd wrth gynnal y berthynas honno'n ymarferol yn y blynyddoedd diwethaf. Un agwedd ar hynny yw ystyried y cyfraniad gan sefydliadau seilwaith at gynnal y Trydydd Sector yng Nghymru (gweler Pennod 3 yn neilltuol).

1.25. Maes arall i'w ystyried yn yr adolygiad yw gweithrediadau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a phatrwm y cyfarfodydd â Gweinidogion a swyddogion sydd wedi datblygu yn ystod y cyfnod hwn. Credwn fod lle i wella yn y meysydd hyn ac rydym am glywed barn ac awgrymiadau gan amrywiaeth eang o bobl ynghylch sut i gyflawni hyn. Rydym am glywed gan y rheini sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r strwythurau a chyfarfodydd presennol ac eraill sydd heb gymryd rhan ynddynt (mae mwy o wybodaeth am hyn ym Mhennod 4).

1.26. Mae nifer o elfennau yn y trefniadau presennol wedi'u hadolygu ar eu pennau eu hun yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys cynlluniau gwirfoddoli, cymorth i godi arian, yr Uned Cofnodion Troseddol, Cytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector a chyllid Llywodraeth Cymru i WCVA. Cafwyd tystiolaeth ddefnyddiol o'r adolygiadau o'r materion hyn a fydd yn cyfrannu i'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn ymhelaethu ar y canfyddiadau ym mhob adroddiad wrth edrych o'r newydd ar y ffordd y mae'r gwahanol elfennau hyn yn cydasio a chydgyssylltu i greu'r darlun o'r sefyllfa bresennol.

## **Cwestiynau:**

**C.1 A oes newidiadau neu ddatblygiadau allweddol eraill yn y blynyddoedd diwethaf sy'n effeithio ar y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector ac a ddylai gael eu hystyried?**



## 2. Cadarnhau ac Adnewyddu'r Berthynas

2.1. Un o nodau pwysig yr ymgynghoriad hwn yw ailddatgan rhai agweddau allweddol ar y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru a'n cyd-ddealltwriaeth o natur a rolau'r sector.

2.2. Yn y paragraffau nesaf rydym yn gwneud defnydd helaeth o ddogfennau sydd wedi'u cyhoeddi, yn enwedig y rhan gyntaf o *Y Trydydd Dimensiwn*, a gyhoeddwyd yn 2008. Credwn fod rhan helaeth o'r dadansoddiad yn y ddogfen honno'n ddilys o hyd, felly rydym yn cyfeirio at y rhannau mwyaf perthnasol yma ac yn eu hailddatgan yn gryno. Rydym hefyd yn cynnwys crynodeb sydd wedi'i seilio ar ddadansoddiad diweddar o natur y Trydydd Sector yng Nghymru.

2.3. Yn y penodau nesaf byddwn yn trafod meysydd lle y mae'r datblygiadau a ddisgrifiwyd ym Mhennod 1 wedi cael effaith sylweddol ac yn cynnwys rhai cynigion ar gyfer newid. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig asesu ein syniadau lle **nad ydym** yn cynnig newid ac am ailddatgan ac adnewyddu ein dealltwriaeth flaenorol.

### Diffinio'r Trydydd Sector yng Nghymru

2.4. Nid yw'n hawdd disgrifio na diffinio'r Trydydd Sector. Mae'r term yn ddisgrifiad cynhwysol a chyffredinol o sefydliadau o bob math sydd â gwerthoedd a nodweddion cyffredin. Derbynnir yn gyffredinol fod sefydliadau'r Trydydd Sector:

- yn gyrrff annibynnol, anllywodraethol;
- wedi'u sefydlu'n wirfoddol gan bobl sy'n dewis cydweithio;
- wedi'u hysgogi gan werthoedd a'u sbarduno gan amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol, yn hytrach na'r awydd i wneud elw;
- wedi ymrwymo i ailfuddsoddi arian dros ben i hyrwyddo eu nodau cymdeithasol ac er lles pobl a chymunedau yng Nghymru.

2.5. Hyd yn oed o'u diffinio ar sail eu gwerthoedd cyffredin, mae amrywiaeth eang o sefydliadau'n rhan o batrwm y Trydydd Sector. Maent yn cynnwys cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, sefydliadau crefyddol, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, ymddiriedolaethau datblygu, cydweithfeydd a sefydliadau cydfuddiannol.

2.6. Mae ymchwil wedi dangos bod y sector yng Nghymru'n cynnwys:

- 33,000 o sefydliadau
- 230,000 o ymddiriedolwyr
- 1.13 miliwn o wirfoddolwyr a phobl sy'n rhoi help llaw yn eu cymuned
- 51,000 o weithwyr cyflogedig

Roedd incwm o £1.6 biliwn gan y sector yn 2009/10, ac mae 2.4% o gyllideb Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ei gynnal.

2.7. Gellir dosbarthu'r 33,000 o sefydliadau yn y Trydydd Sector dan 24 o feysydd gweithgarwch:

|                                                 |                             |
|-------------------------------------------------|-----------------------------|
| Addysg a Hyfforddiant                           | Gwirfoddoli                 |
| Anabledd                                        | Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Celfyddydau                                     | Ieuencid                    |
| Crefydd                                         | Lleiafrifoedd Ethnig        |
| Cyfiawnder Cymunedol                            | Lles anifeiliaid            |
| Cyflogaeth                                      | Plant a Theuluoedd          |
| Cymorth Rhyngwladol a Chymorth<br>mewn Argyfwng | Pobl Hŷn                    |
| Cymunedau                                       | Rhywedd                     |
| Cyrff Rhyngol                                   | Tai                         |
| Chwaraeon a Hamdden                             | Sefydliadau buddiannol      |
| Eirioli a Chynghori                             | Ymchwil a hunangymorth      |
| Ffoaduriaid                                     | Yr Amgylchedd               |

2.8. Mae'r grwpiau hyn yn amrywio'n fawr o ran eu maint a natur y sefydliadau sydd ynddynt. Er enghraifft, mae grwpiau chwaraeon a hamdden yn niferus dros ben. Hefyd, bydd llawer o sefydliadau'n gweithio mewn nifer o'r dosbarthiadau hyn. Yn aml, bydd grwpiau lleol yn canolbwyntio ar y gymuned yn ogystal â nodau a diddordebau penodol.

2.9. Ceir cryn amrywiaeth hefyd yn strwythurau, ffurfiau a hunaniaethau cyfreithiol sefydliadau'r Trydydd Sector. Maent yn cynnwys sefydliadau anghorfforedig, elusennau cofrestredig ac anghofrestredig, cwmnïau cyfyngedig drwy warant (a all fod yn elusennau cofrestredig hefyd), a chwmnïau buddiannau cymunedol, sefydliadau corfforedig elusennol a Chymdeithasau Diwydiannol a Darbodus.

2.10. Er bod gwahanol sefydliadau'n eu galw eu hunain yn sefydliadau gwirfoddol, yn grwpiau cymunedol neu'n fentrau cymdeithasol, mae'r ffiniau rhwng dosbarthiadau o'r fath yn niwlog yn aml ac mae dadl gryf o hyd o blaid eu hystyried gyda'i gilydd yn Drydydd Sector unigryw sy'n bwysig iawn o ran ei gyfraniad i fywyd Cymru.

2.11. Rydym wedi nodi o'r blaen mai nodweddion y Trydydd Sector yw ei fod:

- yn hyblyg ac ymatebol ac yn gallu cwrdd ag anghenion yn gyflym;
- yn peidio â barnu, yn annibynnol ac yn ddibynadwy fel ei fod yn eiriolwr effeithiol;
- yn ofalgar ac yn canolbwyntio ar bobl a'u hanghenion lluosog, ac yn elwa'n aml o brofiad uniongyrchol o'r problemau;
- yn gallu sicrhau 'cylch rhinweddol' sy'n dod â manteision i ddarparwyr cymorth yn ogystal â buddiolwyr
- yn gallu treiddio'n ddyfnach nag eraill i ardaloedd lle y mae problemau gan beri i wasanaethau ac adnoddau cyhoeddus fod ar gael yn fwy eang;
- yn gallu creu perchnogaeth gymunedol gan ddatgloi doniau ac egni;

- yn rhagorol o ran rhwydweithio a chymysgu pob math o adnoddau a ffynonellau ariannol â'i gilydd i ddiwallu anghenion yn effeithiol;
- yn gronfa o arbenigedd a sgiliau arbennig nad ydynt ar gael yn unman arall;
- yn gallu cyflenwi gwasanaethau sy'n mynd y tu hwnt i'r normau arferol;
- yn gosteffeithiol, yn enwedig o ran sicrhau canlyniadau lluosog a helpu pobl i dyfu a datblygu'n unigolion.

2.12. Rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar waith dyngarol a gweithredu cymdeithasol ar lefel y gymuned sy'n cyfrannu at gymdeithas ddinesig gyfoethog ac yn gwella ansawdd bywyd pobl yng Nghymru. Credwn fod gweithredu cymunedol lleol o'r fath yn bwysig am ei fod yn ymateb i brofiadau ac anghenion o ddydd i ddydd. Gwelir yn aml mai ar lefel leol iawn y teulu neu'r gymdogaeth y gall sefydliadau'r Trydydd Sector wneud y gwahaniaeth mwyaf. Natur hygyrch ac ymatebol y sector yw un o'i brif gryfderau.

2.13. Rydym am ymrwymo dros y tymor hir i helpu sefydliadau lleol a chymunedol i dyfu a datblygu, a sicrhau bod seilwaith priodol ar gael i gyflawni hyn. Drwy wneud hynny, gallwn hyrwyddo cymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol lle y mae cymunedau'n meithrin gallu mewn unigolion i ddelio â thlodi, sgiliau, diweithdra a chynaliadwyedd.

### **Natur y Berthynas â Llywodraeth Cymru**

2.14. Mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn gymhleth ac amlweddog. Mae'n cynnwys:

- cyfnewid data a gwybodaeth
- rhannu barn am effaith polisiau a ffyrdd o'u gweithredu yn y dyfodol ar y Trydydd Sector drwy brosesau i adnabod newidiadau perthnasol ac ymgynghori arnynt
- cynllunio, dylunio, monitro a gwerthuso rhaglenni a chynlluniau ar y cyd
- ariannu gwasanaethau cymorth cyffredinol ac arbenigol
- ariannu mewn gwahanol feysydd pwnc, yn uniongyrchol ac anuniongyrchol
- diddordeb cyffredin yn y ffordd y mae awdurdodau lleol, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, yr UE ac awdurdodau cyhoeddus eraill yn rhyngweithio â'r Trydydd Sector

2.15. O fewn y cyd-destun cymhleth hwn, gellir adnabod tri maes diddordeb gwahanol a gorgyffyrddol sy'n diffinio ac yn pennu strwythur ein perthynas â'r Trydydd Sector: cymunedau cryfach; gwell polisi a gwell gwasanaethau cyhoeddus. Felly mae tair agwedd ar ein diddordeb yn y Trydydd Sector a'n cefnogaeth iddo:

- Helpu i dyfu a datblygu gallu'r sector er mwyn cryfhau cymunedau buddiant a chymunedau daearyddol

- Manteisio ar wybodaeth ac arbenigedd y sector er mwyn dylunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus gwell
- Annog a helpu'r sector i gyfrannu at gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

### **Cynigion ar gyfer Datblygu yn y Dyfodol**

2.16. Credwn fod y dadansoddiad uchod o'r Trydydd Sector, sydd yn *Y Trydydd Dimensiwn*, a'i berthnasedd i Lywodraeth Cymru, yn ddilys o hyd i raddau helaeth. Yn benodol, rydym yn parhau i gredu bod grymuso pobl a helpu i ddatblygu cymunedau cydnerth yn gyfraniadau hanfodol gan y Trydydd Sector at ddatblygu cymdeithas deg a chyfiawn.

2.17. Yn *Y Trydydd Dimensiwn*, mae'r themâu strategol canlynol yn cwmpasu ein cymorth i'r sector:

- Gwerthfawrogi gweithredu gwirfoddol
- Cryfhau a grymuso cymunedau
- Hwyluso llais y dinesydd
- Cyflymu menter gymdeithasol
- Personoli gwasanaethau cyhoeddus

2.18. Yn yr un modd, ein harfer blaenorol oedd amlinellu tri "fframwaith grymuso":

- Cryfhau'r ymgysylltu rhwng y cyhoedd a'r Trydydd Sector
- Gwella gwasanaethau cymorth y Trydydd Sector
- Rhoi'r gallu i wella perfformiad a thwf

2.19. Mae'r model hwn wedi datblygu mewn nifer o ffyrdd wedyn gan gynnwys Cynllun Cyflawni Integredig newydd sydd wedi'i ddisgrifio'n fwy manwl yn y bennod nesaf. Mae hwn, ynghyd ag offer eraill, yn cynnig ffordd hyblyg o ddatblygu perthynas waith effeithiol ac o fonitro'r graddau y mae'r sector yn cyflawni ei nodau.

2.20. Er ein bod yn credu bod gwerth o hyd yn y themâu a'r fframwaith blaenorol, nid ydym yn bwriadu datblygu un Cynllun Gweithredu manwl newydd ar eu sail. Yn hytrach, rydym am hyrwyddo deialog barhaus â'r sector a fydd yn parhau i ddatblygu o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r penodau sy'n dilyn yn disgrifio sut yr ydym yn rhag-weld y bydd hyn yn digwydd.

### **Cwestiynau:**

**C.2 A ydych yn cytuno bod y dadansoddiad uchod o'r Trydydd Sector a'i rinweddau'n parhau'n berthnasol?**

**C.3 A ydych yn credu bod y pum thema strategol yn 2.17 yn sail ddefnyddiol o hyd i ddeialog barhaus?**

**C.4 A oes elfennau eraill yr ydych am eu hychwanegu neu'n eu hystyried yn fwy defnyddiol?**

### **3. Cynnal Seilwaith y Trydydd Sector**

3.1. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gwerth o gael Trydydd Sector cryf a ffyniannus yng Nghymru. Mae angen cymorth a chyfarwyddyd ar sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol er mwyn gweithredu'n ddiogel a chyfreithlon, cyflawni eu nodau'n effeithiol, a thyfu a ffynnu. Gall gwirfoddolwyr unigol fod ag angen cyngor a chymorth hefyd er mwyn gallu cyfrannu i'r graddau mwyaf posibl at eu cymunedau a'r achosion da sy'n bwysig iddynt. Rydym yn derbyn bod dadl o blaid cefnogi sefydliadau sy'n rhoi cymorth eu hunain i ddatblygu'r Trydydd Sector.

3.2. Yn y bennod hon rydym yn disgrifio'r trefniadau presennol yng Nghymru a phrif rolau'r sefydliadau sy'n darparu'r cymorth hwn.

3.3. Rydym yn tynnu sylw at effaith y newidiadau a'r datblygiadau a nodwyd ym Mhennod 1 ac yn disgrifio'r cynigion i hybu arloesedd a chreadigedd o fewn y fframwaith presennol.

#### **Beth yw Seilwaith y Trydydd Sector?**

3.4. Mae rhwydwaith sefydledig o sefydliadau cymorth ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru sy'n cynnwys WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol. Yr enw ar hyn yw Seilwaith y Trydydd Sector. Mae'r sefydliadau hyn yn chwarae rhan ganolog ym mherthynas y sector â Llywodraeth Cymru. Oherwydd hyn, rydym yn rhoi pwyslais ar y seilwaith yn yr ymgynghoriad hwn.

3.5. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r seilwaith hwn drwy ddarparu cyllid craidd am flynyddoedd lawer, drwy Gytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector, ac ni fu fawr o newid yn y patrwm sylfaenol ers ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru ym 1996. Roedd hyn wedi arwain at greu Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn y rhan fwyaf o'r Bwrdeistrefi Sirol newydd.

3.6. Mae'r sefydliadau seilwaith hyn yn gweithio o fewn fframwaith cydweithredol cenedlaethol (a rhanbarthol hefyd mewn sawl achos) ond mae pob un yn gorff annibynnol sy'n ymreolus i raddau helaeth. Mae 19 o Gyngorau Gwirfoddol Sirol, un ar gyfer ardal pob awdurdod lleol ar wahân i Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) sy'n cynnwys Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Chasnewydd. Hefyd ceir Canolfannau Gwirfoddol yn ardal pob awdurdod lleol, y rhan fwyaf ohonynt yn rhan o'r Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol.

3.7. Mae'r seilwaith hwn i Gymru gyfan yn cael ei gydnabod yn eang, yng Nghymru a thu hwnt, yn un o gryfderau'r Trydydd Sector yng Nghymru, gan ei fod yn darparu set gytûn o wasanaethau craidd sydd ar gael i nifer mawr o bobl a sefydliadau ledled y wlad. Gyda'i gilydd, mae 14,000 o sefydliadau Trydydd Sector yn aelodau o WCVA, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol a'r canolfannau gwirfoddol. Bydd y sefydliadau seilwaith hyn yn cysylltu'n gyson â'u haelodau yn ogystal â nifer o grwpiau eraill yn y sector drwy eu gwasanaethau a'u rhwydweithiau.

3.8. Mae'r cyllid ar gyfer Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol wedi'i seilio ar fformiwla a ddefnyddiwyd gyntaf ym 1997 sy'n cynnwys poblogaeth,

arwynebedd a lefelau amddifadedd. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid grant y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i gynnal y seilwaith hwn yn cael ei rheoli gan WCVA, sy'n trosglwyddo cyfran ohono i bob Cyngor Gwirfoddol Sirol a Chanolfan Wirfoddol. Cyfanswm y cyllid seilwaith a reolir gan WCVA ym mlwyddyn ariannol 2013/14 fydd ychydig llai na £7.4 miliwn. Bydd bron £4 miliwn o'r swm hwnnw'n cael ei drosglwyddo i'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol a'r Canolfannau Gwirfoddol. Defnyddir y cyllid hefyd i gynnal nifer o raglenni a phrosiectau cenedlaethol sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan WCVA. Ymhlith y rhain y mae'r Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru a GwirVol (gwirfoddoli gan bobl ifanc) sydd ill dau'n derbyn ychydig llai na £1 miliwn y flwyddyn; yr Uned Cofnodion Troseddol sy'n derbyn ychydig llai na £500,000; a'r Gronfa Meithrin Gallu Partneriaeth, sy'n darparu arian i alluogi rhwydweithiau i gymryd rhan yng Nghyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, a gaiff ychydig mwy na £100,000.

3.9. Cafwyd adolygiad o'r Cytundeb Partneriaeth a Seilwaith y Trydydd Sector yn 2012.\* Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y cytundeb yn ffordd ddefnyddiol o adnabod a diffinio'r gwahanol rolau ar y gwahanol lefelau yn Seilwaith y Trydydd Sector yng Nghymru, a nododd y lefel fwyaf priodol ar gyfer gwahanol gyfrifoldebau. Casglwyd bod ymatebwyr yn credu bod amcanion y bartneriaeth bresennol yn berthnasol ac yn addas o hyd gan mwyaf. Roeddent yn credu bod yr holl wasanaethau craidd a ddarperir dan Gytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector yn berthnasol ac yn cael eu cyflenwi'n dda at ei gilydd. Mae mwy o fanylion isod am ganfyddiadau o'r adolygiad sy'n ymwneud ag agweddau penodol ar y gwasanaethau hyn.

3.10. Yn y gorffennol, mae'r cyllid ar gyfer seilwaith wedi helpu sefydliadau eraill, y tu allan i gwmpas y Cytundeb Partneriaeth, yn enwedig ym maes codi arian. Mae'r symiau dan sylw wedi bod yn rhai bach yng nghyd-destun y prif drefniadau ar gyfer y seilwaith sydd wedi'u disgrifio uchod ac ychydig iawn o gyllid o'r fath a fydd yn parhau yn 2013/14. Er hynny, byddai sefydliadau eraill sy'n helpu'r sector yn gallu cael arian o'r gyllideb seilwaith yn y dyfodol.

### **Datblygu Cynllun Cyflawni Integredig**

3.11. O ganlyniad i waith diweddar gan Lywodraeth Cymru a'r sefydliadau seilwaith mae Cytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector wedi'i ddatblygu a'i gryfhau'n sylweddol ar gyfer 2013/14. Er mwyn hyrwyddo hyn, mae "Cynllun Cyflawni Integredig" newydd wedi cael ei ddatblygu. Mae'r Cynllun hwn yn ymhelaethu ar Gynllun Partneriaeth y Trydydd Sector ac yn disgrifio'r Trydydd Sector yng Nghymru, y cyd-destun lle y mae'n gweithredu, a'r cyd-destun strategol ar gyfer pennu blaenoriaethau'r seilwaith yn y dyfodol. Hefyd mae'r Cynllun yn cynnwys gwybodaeth am bartneriaid presennol y seilwaith ac yn disgrifio'r canlyniadau maent yn bwriadu eu cyflawni ar y cyd.

3.12. Cytunwyd ar ganlyniadau clir a mesuradwy ar gyfer pob un o'r prif feysydd gweithgarwch sydd yn y Cynllun Cyflawni Integredig. Mae'r rhain wedi'u trefnu dan dri phennawd, fel a ganlyn:

---

\* "Barn rhanddeiliaid am amcanion Cytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector ac am y trefniadau i fonitro perfformiad seilwaith y trydydd sector. Adroddiad am y canfyddiadau." 2012.

## **Dinasyddion sy'n weithgar ac yn cymryd rhan**

Mwy o bobl yng Nghymru'n cael budd o gymryd rhan fel gwirfoddolwyr  
Mwy o gymunedau'n elwa o waith gwirfoddolwyr  
Mwy o sefydliadau'n cynnig cyfleoedd i wirfoddoli o ansawdd da  
Pobl a chymunedau'n ymwneud yn fwy effeithiol â gwasanaethau cyhoeddus

## **Trydydd sector ffyniannus a chynaliadwy**

Ymddiriedolwyr sy'n hyderus ynghylch arwain eu sefydliadau i gyflawni eu gwaith yn effeithiol ac effeithlon  
Sefydliadau sy'n gallu gweithredu'n gynaliadwy, yn deg, yn gyfreithlon ac yn ddiogel  
Mae gan staff y Trydydd Sector y wybodaeth a'r cyfarwyddyd sydd eu hangen i alluogi eu sefydliadau i gyflawni eu gwaith yn effeithiol ac effeithlon  
Mae gan staff y Trydydd Sector y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i alluogi eu sefydliadau i gyflawni eu gwaith yn effeithiol ac effeithlon  
Mae sefydliadau'n sicrhau ac yn cadw adnoddau cynaliadwy ac amrywiol i gyflawni eu hamcanion  
Gall pobl greu a chynnal sefydliadau/gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion eu cymuned

## **Cyfrannu'n effeithiol at lunio polisi**

Gall y sector gyfrannu'n effeithiol at lunio polisi ar bob lefel  
Mae'r sector wedi'i gydnabod yn gyfrwng hanfodol i gyfranogi ac ymgysylltu  
Mae'r sector yn aelod effeithiol o bartneriaethau cyhoeddus  
Mae'r sector yn cyfrannu'n fwy at wella'r cyflenwi ar wasanaethau cyhoeddus  
Mae'r sector yn cymryd rhan yn effeithiol wrth graffu ar wasanaethau cyhoeddus  
Mae pobl, cymunedau buddiant a chymunedau daearyddol wedi'u cynrychioli, gan gynnwys grwpiau lleiafrifol a difreintiedig

3.13. Mae'r fframwaith hwn wedi'i ategu gan ymrwymiad y sefydliadau seilwaith i weithredu ar lefel ranbarthol i fwy o raddau, i weithio'n fwy effeithlon ac i ymateb i'r newidiadau mawr y mae Cymru'n eu hwynebu. Credwn fod y fframwaith hwn yn fan cychwyn da i ddatblygu'r fframwaith ei hun ymhellach yn ogystal â'r berthynas â Llywodraeth Cymru.

## **Rolau Seilwaith y Trydydd Sector**

3.14. Mae rolau Seilwaith y Trydydd Sector wedi'u nodi yn y Cynllun Cyflawni Integredig a'r rhain, yn fyr, yw:

- Galluogi sefydliadau eraill y Trydydd Sector i dyfu a datblygu.
- Cynorthwyo gwirfoddolwyr unigol a hybu cydweithio gwirfoddol.
- Hyrwyddo llywodraethu da ym mhob rhan o'r Trydydd Sector.

- Helpu i ddylunio a chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Siarad ar ran y sector ehangach a'i gynrychioli.
- Rhannu arloesedd ac arferion da.
- Yn y paragraffau nesaf rydym yn disgrifio'r ffordd y mae'r rolau hyn wedi datblygu yn y blynyddoedd diwethaf ac yn tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol mewn adolygiadau diweddar.

The following paragraphs describe how these roles have developed in recent years and highlight key findings of recent reviews.

### *Galluogi sefydliadau eraill y Trydydd Sector i dyfu a datblygu*

3.15. Un o brif ddibenion y sefydliadau seilwaith yw datblygu gallu a chymhwyster unigolion a sefydliadau eraill yn y Trydydd Sector. Felly mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn bwysig cael seilwaith sy'n gwneud y sector cyfan yn fwy cynaliadwy ac yn rhoi cymorth yn benodol i sefydliadau llai yn y Trydydd Sector ac i hybu gweithredu gwirfoddol ar lawr gwlad.

3.16. Mae trefniadau effeithiol i godi arian yn agwedd allweddol ar y cymorth hwn ac mae pob un o'r prif sefydliadau seilwaith yn helpu grwpiau Trydydd Sector i godi arian o bob math o ffynonellau a thrwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys ffeiriau codi arian, defnyddio rhaglenni TG fel Grantfinder a thrwy roi cyngor yn uniongyrchol.

3.17. Cafwyd gwahaniaeth barn yn yr adolygiad o Gytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector yn 2012. Roedd rhai rhanddeiliaid yn credu bod Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn rhagori yn y maes hwn tra oedd ymatebwyr eraill yn awgrymu bod y cyngor a geir gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gyffredinol braidd a'i fod yn llai effeithiol ar gyfer y sefydliadau mwyaf.

3.18. Rydym yn cydnabod bod angen i'r sefydliadau seilwaith eu hunain fod yn gynaliadwy, yn ymatebol i'w cyd-destun lleol (yn achos WCVA, y cyd-destun cenedlaethol) ac yn hyblyg mewn amgylchiadau sy'n newid. Derbynnir hefyd fod pob un yn gorff annibynnol sy'n atebol i Fwrdd Cyfarwyddwyr (neu grŵp cyfatebol) ac, yn achos y rhan fwyaf ohonynt, i nifer o gyrff ariannu heblaw Llywodraeth Cymru. Yn achos y rhan fwyaf o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol hefyd.

3.19. Oherwydd y ffactorau hyn mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol wedi datblygu mewn ffyrdd gwahanol ac mae eu maint a'u strwythur yn amrywiol. Er bod pob un ohonynt yn cyflawni'r swyddogaethau seilwaith yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, mae nifer ohonynt hefyd yn darparu prosiectau a gweithgareddau eraill. Mae'r amrywiaeth hon yn cryfhau'r seilwaith cyfan i ryw raddau, ond credwn ei bod yn hanfodol bod y prif bwyslais o hyd ar ddatblygu'r sector ehangach a hybu gweithredu cymunedol. Er bod yr amrywiaeth yn gryfder i'r seilwaith mewn rhai ffyrdd mae'n bwysig bod y seilwaith sy'n cael cymorth gan Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar yr amcanion allweddol sydd wedi'u nodi ym mharagraff 2.17.



### *Cynorthwyo gwirfoddolwyr unigol a hybu cydweithio gwirfoddol*

3.20. Gwaith y gwirfoddolwyr yw carreg sylfaen y Trydydd Sector, felly rhan hanfodol o rôl y sefydliadau seilwaith yw helpu gwirfoddolwyr yn unigol ac ar y cyd. Mae anghenion o bob math gan wirfoddolwyr unigol ac mae hefyd yn hanfodol bod y sefydliadau seilwaith yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd ynghylch hyfforddiant a chanllawiau i sefydliadau sy'n ceisio rheoli gwirfoddolwyr yn llwyddiannus.

3.21. Ar hyn o bryd, mae'r cymorth seilwaith ar gyfer gwirfoddoli'n cynnwys:

- cyllid craidd i Gynghorau Gwirfoddol Sirol sy'n eu galluogi i gynnig cyngor a chyfarwyddyd i sefydliadau;
- cyllid craidd i Ganolfannau Gwirfoddol i ddarparu cymorth lleol i wirfoddolwyr a sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr drwy ddatblygu lleoliadau i wirfoddolwyr, lleoli gwirfoddolwyr a chydweithio â sefydliadau i ddatblygu arferion da yn y maes hwn, ymysg pethau eraill;
- Y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru, a weinyddir gan WCVA, sy'n darparu adnoddau ychwanegol ar lefel genedlaethol ac yn cynorthwyo pobl sy'n llai tebygol o wirfoddoli;
- GwirVol, partneriaeth a chynllun gwirfoddoli ieuenctid sydd hefyd yn cael eu gweinyddu gan WCVA, a ffurfiwyd o ganlyniad i Adroddiad Comisiwn Russell yn 2005 ac sy'n canolbwyntio ar wirfoddolwyr rhwng 14 a 25 oed.

3.22. Er bod rôl wahanol gan bob un o'r elfennau hyn ar gyfer hybu gwirfoddoli, mae cryn dipyn o gydweithredu rhyngddynt hefyd. Er enghraifft, mae pob Canolfan Wirfoddol yn cyflawni rôl ffurfiol drwy helpu i ddarparu GwirVol. Yn ddiweddar, cafwyd adolygiadau ar wahân o'r Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru a GwirVol a chasglwyd bod y ddau ohonynt yn effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n eithaf cymhleth ac mae'n bwysig ailedrych ar y berthynas rhwng y rhaglenni cenedlaethol a'i gilydd a rhyngddynt nhw a'r trefniadau cymorth lleol ar gyfer gwirfoddolwyr a rhannau eraill o'r seilwaith.

3.23. Mae llawer o elusennau, mentrau cymdeithasol a chyflogwyr yn rhoi cymorth i wirfoddoli yn eu sefydliadau eu hunain ac yn fwy eang mewn rhai achosion. Drwy wella cysylltiadau, yn enwedig y rheini â rhwydweithiau mawr a chyrrff sefydledig sydd â phrofiad o wirfoddoli a diddordeb ynddo, gellir cyflawni nodau cyffredin a chryfhau'r seilwaith cyfan.

3.24. Mae angen ystyried modelau eraill fel cynlluniau bancio amser a llysgenhadon strydoedd. Er bod rhai nodweddion neilltuol yn perthyn i'r dulliau hyn, maent yn rhannu nifer o'r gwerthoedd sydd mewn mathau mwy traddodiadol o wirfoddoli gan barchu pobl a'u galluogi i gyfrannu at les cymunedau a chymdeithas y tu allan i addysg a chyflogaeth brif ffrwd. Dylid hybu dulliau arloesol o'r fath a'u galluogi i elwa o'r cymorth a gwasanaethau sydd ar gael drwy Seilwaith y Trydydd Sector.

3.25. Ceir newidiadau mewn cymdeithas sy'n effeithio ar wirfoddoli, ac mae pobl ifanc ac eraill yn cael eu hannog i wirfoddoli drwy raglenni addysg neu gyflogaeth. Yn yr adolygiad yn 2012 ac mewn trafodaethau diweddar, tynnwyd sylw at effaith y datblygiadau hyn ar y seilwaith gwirfoddoli.

3.26. Rhaid cofio pa mor bwysig yw ymateb i newid mewn anghenion a blaenoriaethau yn y sector a sicrhau bod cyllid ar gyfer gwirfoddoli'n adlewyrchu ac yn hyrwyddo ymateb o'r fath.

3.27. Rhaid canolbwyntio'n barhaus ar anghenion gwirfoddolwyr o bob oed, ac yn enwedig ar anghenion pobl ifanc, a rhaid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael i hybu'r gwaith hwn yn cael eu cyd-drefnu'n dda a'u bod ar gael mor rhwydd â phosibl i bobl ledled Cymru.

#### *Hyrwyddo llywodraethu da*

3.28. "Llywodraethu" yw'r ffordd y mae sefydliadau'n cynnal eu busnes yn fewnol a chyda phobl a sefydliadau eraill, a'r ffordd y maent yn rheoli adnoddau. Rhai agweddau pwysig ar lywodraethu yw delio â chyllid, gweithrediadau o ddydd i ddydd, y ffordd o wneud penderfyniadau a'r ffordd o ddelio â chwynion, ond mae nifer o rai eraill.

3.29. Mae'n hollbwysig sicrhau bod sefydliadau'r Trydydd Sector yn cael eu rheoli'n dda a'u bod yn atebol mewn ffordd briodol i'w rhanddeiliaid. Mae hyn yn arbennig o gymwys i sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus, ond nid i'r rhain yn unig. Os bydd diffygion yn y maes hwn, gall hynny gael effaith drychinebus ar y sefydliadau eu hunain a hefyd ar y bobl sy'n gysylltiedig â nhw, gan gynnwys ymddiriedolwyr, staff, gwirfoddolwyr a chleientiaid. Hefyd gall problemau mewn un sefydliad gael effaith ar eraill a hyd yn oed ar y sector cyfan.

3.30. Felly mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i helpu pob un o sefydliadau'r Trydydd Sector yng Nghymru i gynnal safonau llywodraethu uchel. Mae sefydliadau seilwaith yn rhannu'r ymrwymiad hwn, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yng Nghytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector.

3.31. Mae lle i gryfhau yn y maes hwn a sicrhau mwy o gysondeb o ran hyrwyddo a diogelu llywodraethu da. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Canolfan Ragoriaeth Grantiau sy'n hybu'r ymdrechion hyn, ac mae'n cydweithio â chyrff ariannu eraill gan gynnwys y Loteri Fawr i hybu'r defnydd o ddulliau sefydledig fel PQASSO a Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr i helpu sefydliadau i lywodraethu'n well.

#### *Helpu i ddylunio a chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus*

3.32. Ym Mhennod 5 rydym yn trafod ein syniadau ynghylch cynnwys y Trydydd Sector wrth ddylunio a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ar bob lefel. Mae sefydliadau seilwaith mewn lle da i alluogi sefydliadau'r Trydydd Sector i gyfrannu at yr agenda hon. Mae hyn yn arbennig o wir am WCVA ar lefel genedlaethol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol ar lefel y rhanbarthau a'r awdurdodau lleol. Unwaith eto, mae'n hanfodol mai rôl galluogi fydd ganddynt sy'n sicrhau bod holl adnoddau'r sector yn cael eu defnyddio i'r graddau mwyaf posibl fel bod sefydliadau cymunedol lleol, elusennau o bob maint a mentrau cymdeithasol yn gallu cyfrannu'n llawn.

### *Siarad ar ran y sector ehangach a'i gynrychioli*

3.33. Un o'r prif rolau i seilwaith y Trydydd Sector yw cyfleu barn y sector i Lywodraeth ac i gymdeithas yng Nghymru a thu hwnt. Yn yr adolygiad o'r Cytundeb Partneriaeth yn 2012 cafwyd bod y rhan fwyaf o randdeiliaid yn credu mai hon oedd y rôl bwysicaf i seilwaith y Trydydd Sector.

3.34. Tynnwyd sylw hefyd yn yr adroddiad hwnnw at yr heriau sy'n wynebu'r sefydliadau seilwaith wrth gynrychioli sector mor amrywiol a nodwyd bod sefydliadau trosfwaol eraill yng Nghymru sydd hefyd yn ceisio cynrychioli rhannau o'r sector. Nodwyd hefyd fod WCVA yn wynebu her wrth gyflenwi'r gwasanaeth craidd hwn o ran ei allu i gyfleu barn y sector yn annibynnol wrth dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd Cynghorau Gwirfoddol Sirol eu bod yn ei chael yn anodd cynrychioli barn eu haelodau'n effeithiol wrth ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

3.35. Mae cysylltiad agos rhwng y materion hyn a phwnc y bennod nesaf sy'n edrych yn fwy manwl ar y dulliau o ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector. Mae sefydliadau seilwaith yn ymwneud yn uniongyrchol â'r strwythurau a'r cyfarfodydd hynny yn ogystal â helpu sefydliadau eraill i gymryd rhan yn y berthynas. Felly mae'n bwysig iawn bod yr agwedd hon ar y rôl yn effeithiol a bod dealltwriaeth eang ohoni.

3.36. Rydym yn awyddus i gryfhau agwedd ddaearyddol y strwythurau cynrychioli fel y bydd rôl y Cynghorau Gwirfoddol Sirol ar lefel leol a rhanbarthol yn dod yn bwysicach byth.

### *Rhannu arloesedd ac arferion da*

3.37. Am fod seilwaith ar gael i'r Trydydd Sector ledled Cymru, mae cyfle i rannu arferion da a syniadau da yn eang, ac i sefydliadau eraill eu mabwysiadu a'u haddasu. Mae rhan bwysig i'w chwarae hefyd gan sefydliadau seilwaith drwy gasglu gwybodaeth, data ac ystadegau am y sector yng Nghymru i gyfrannu at lunio a chyflenwi polisi.

3.38. Er ei bod yn sicr y bydd rhan bwysig o hyd yn y broses hon, hyd y gellir rhagweld, i gysylltiadau wyneb yn wyneb, cyhoeddiadau printiedig, cynadleddau a seminarau, y datblygu cyflym ar dechnoleg a chyfryngau cymdeithasol yw'r newid pwysicaf yn y maes hwn ar hyn o bryd heb amheuaeth. Mae'r sector yn ymateb i newidiadau o'r fath, ond mae heriau a chyfleoedd mawr yn ei wynebu o hyd. Bydd angen creu amgylchedd sy'n hybu defnydd arloesol o TGCh ac yn manteisio i'r eithaf ar yr effeithlonrwydd a'r gwelliannau sydd ar gael drwy fentrau technolegol.

### **Cynigion ar gyfer Datblygu'r Seilwaith yn y Dyfodol**

3.39. Fel y nodwyd ar ddechrau'r bennod hon, mae Llywodraeth Cymru yn gweld fod dadl o hyd o blaid cynorthwyo sefydliadau sy'n rhoi cymorth eu hunain i ddatblygu'r Trydydd Sector yng Nghymru. Rhagwelir mai un o brif ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn fydd cadarnhau trefniadau ariannu newydd i Seilwaith y Trydydd Sector ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a diwedd Mawrth 2017.

3.40. Yn gyffredinol, rydym hefyd yn credu bod y prif sefydliadau seilwaith presennol – WCVA, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r canolfannau gwirfoddol – yn rhoi cymorth effeithiol at ei gilydd i'r Trydydd Sector yng Nghymru, eu bod yn cyfrannu'n fuddiol at gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a'u bod yn helpu eraill i wneud hynny. Yng nghyd-destun yr heriau sylweddol sy'n codi yn yr hinsawdd economaidd bresennol, nid ydym am achosi ymyrraeth sylweddol yn y seilwaith hwn gan y byddai hynny'n debygol o amharu ar y sefydliadau, y cymunedau a'r gwirfoddolwyr unigol y maent yn eu helpu.

3.41. Er hynny, fe all y seilwaith fod yn fwy effeithiol a chydgyssylltiedig, ac ymateb yn fwy cadarn i'r heriau a'r newidiadau yr ydym wedi'u disgrifio ym Mhennod 1 yn y ddogfen ymgynghori hon. Credwn mai cyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru yw annog y sector i wneud cynnydd pellach a darparu fframwaith ariannu sy'n hybu ac yn cymell dull gweithredu o'r fath.

3.42. Credwn hefyd fod arbenigedd y tu allan i'r prif sefydliadau seilwaith y gellid ei ddefnyddio'n fwy effeithiol nag a wneir ar hyn o bryd i hybu'r Trydydd Sector ehangach yng Nghymru. Nid ydym am ddarnio'r seilwaith na bod yn rhy gyfarwyddol ynghylch unrhyw drefniadau newydd. Yn hytrach, rydym am annog WCVA a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol i ddechrau deialog â sefydliadau eraill a datblygu atebion arloesol a chreadigol ar y cyd a fydd yn fanteisiol i'r sector cyfan.

3.43. Rydym hefyd yn credu ei bod yn briodol ailedrych yn awr ar y fformiwla ar gyfer dosbarthu cyllid seilwaith rhwng WCVA, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r Canolfannau Gwirfoddol i asesu a yw'n deg a chyfiawn. Mae maint y boblogaeth, arwynebedd yr ardal a lefelau amddifadedd i gyd yn ystyriaethau perthnasol o hyd ar gyfer hyn, ond rhaid gofalu na fydd amgylchiadau hanesyddol yn arwain at ddiffyg cydbwysedd dros gyfnodau hir heb fod cyfiawnhad dros hynny.

3.44. Bydd yn bwysig iawn o hyd gael prawf bod unrhyw drefniadau'n gosteffeithiol ac yn cynnal safonau uchel wrth gyflenwi gwasanaethau. Rhaid sicrhau bod y trefniadau yr ydym yn eu hariannu ar gyfer Seilwaith y Trydydd Sector yn addas i gynnal y Trydydd Sector yng Nghymru yn y dyfodol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a'u bod yn datblygu i ymateb i anghenion newydd penodol ar bob lefel.

3.45. Felly rydym am sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth cydlynol a chydgyssylltiedig i gynorthwyo'r Trydydd Sector sydd hefyd yn rhoi cyfle i sefydliadau sydd ag arbenigedd perthnasol i gyfrannu at y ddarpariaeth hon. Ein bwriad, yn syml, yw cadw a gwella'r trefniadau presennol ar gyfer y seilwaith, ond byddwn hefyd yn neilltuo cyfran o gyllideb gyffredinol y seilwaith – 10% efallai – i hyrwyddo arloesi a gweithio mewn partneriaeth rhwng y cyrff seilwaith presennol ac asiantaethau eraill.

3.46. Rhaid sicrhau gweledigaeth gyffredinol ar gyfer cryfhau'r sector cyfan, gan gynnwys grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar lawr gwlad sy'n aml yn ddisylw. Credwn mai prif rôl y Seilwaith yw helpu'r sefydliadau presennol i ffynnu a dod yn fwy cynaliadwy yn ogystal â hybu a meithrin sefydliadau newydd a rhai sy'n datblygu er mwyn cael twf yn y sector.

3.47. Ar sail yr egwyddorion hyn, rydym yn cyflwyno'r cynigion canlynol ar gyfer ariannu'r seilwaith yn y dyfodol:

- Er mwyn cynnal ei ymrwymiad i ariannu seilwaith, gan ystyried canlyniad Adolygiad Gwariant Canolog Llywodraeth Cymru pan fydd yn hysbys yn ddiweddarach eleni.
- Cadw'r Cynllun Cyflawni Integredig newydd a'i ddatblygu ymhellach er mwyn sicrhau bod gwaith y seilwaith yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ei fod yn fesuradwy a'i fod yn ymateb i newid.
- Adolygu'r fformiwla ar gyfer dosbarthu cyllid seilwaith rhwng WCVA, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r Canolfannau Gwirfoddol i asesu a yw'n parhau i ddosbarthu'r adnoddau sydd ar gael mewn ffordd deg a chyfiawn.
- Neilltuo 10% o'r cyllid seilwaith i hyrwyddo arloesedd a chydweithredu, yn enwedig ar lefel ranbarthol. Y meini prawf ar gyfer derbyn arian o "Gronfa Arloesedd y Trydydd Sector" fydd:
- cysondeb â'r Rhaglen Lywodraethu ac, yn benodol, y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi;
- gweithio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol o fewn y patrwm cydweithredu ac mewn partneriaeth ag asiantaethau'r sector cyhoeddus;
- cynnwys yr holl Gynghorau Gwirfoddol Sirol yn yr ardal dan sylw ac o leiaf un sefydliad arall yn y Trydydd Sector sydd ag arbenigedd ategol;
- cyfle i asiantaethau cenedlaethol gymryd rhan os gallant ddangos eu bod yn gallu cyfrannu ar y lefelau ranbarthol a lleol, er enghraifft, drwy ddefnyddio'r adnoddau yn eu rhwydweithiau eu hunain.
- Bod Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r Trydydd Sector yn cydweithio i ddatblygu fframwaith newydd, o fewn y seilwaith ehangach, i gydgysylltu cymorth ar gyfer gwirfoddoli, a fydd yn llai cymhleth a darniog na'r patrwm presennol ond yn cadw cryfderau'r rhaglenni presennol a'r Canolfannau Gwirfoddol.

#### **Cwestiynau:**

**C.5 Rydym wedi disgrifio rôl y Seilwaith uchod. A oes unrhyw beth sydd wedi'i adael allan yn eich barn chi?**

**C.6 Sut y gallwn sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran ariannu a chyflenwi gwasanaethau ar draws y Seilwaith ar lefelau cenedlaethol, ranbarthol a lleol?**

**C.7 A ydych o blaid y cynnig i ddatblygu Cronfa Arloesedd y Trydydd Sector am y rhesymau sydd wedi'u nodi yma?**

**C.8 Rydym yn credu bod nifer o elfennau cryf yn y seilwaith presennol i hybu gwirfoddoli (gweler paragraffau 3.21 a 3.22) ond y gellid ei symleiddio. A oes gennych unrhyw awgrymiadau am ffyrdd o'i wella?**

## 4. Ymgysylltu

4.1. Yng Nghymru mae hanes hir o ymgysylltu uniongyrchol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector, a hynny'n bennaf drwy Gynllun y Sector Gwirfoddol sy'n unigryw i Gymru. Mae'r ymgysylltu strategol hirdymor hwn â'r Trydydd Sector yn parhau'n bwysig o ran cyfrannu at ddatblygu polisi a helpu i lunio gwasanaethau i gwrdd ag anghenion pobl Cymru.

4.2. Mae'n bwysig cael perthnasoedd gwaith cadarnhaol â'r Trydydd Sector ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Dylai cynrychiolwyr y Trydydd Sector gymryd rhan ar bob un o'r tair lefel.

4.3. Wrth ddilyn y broses hon rhaid cael gwell dealltwriaeth o'r rhyngweithio sy'n datblygu'n gyson rhwng y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector, gan beidio ag anghofio'r Sector Preifat, a chydabod gwerth yr ymgysylltu rhyngom gan sicrhau bod dulliau priodol ar waith i sicrhau perthynas gynhyrchiol a fydd yn cryfhau yn y dyfodol.

### Y Trefniadau Presennol

4.4. Ar hyn o bryd mae dau brif ddull ffurfiol o ymgysylltu – Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (CPTS) a chyfarfodydd chwemisol ym mhob Portffolio Gweinidogol. Rhan o'r broses hon fydd ystyried y patrwm a'r modelau ar gyfer ymgysylltu i sicrhau'r ffordd orau o ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector. Mae disgrifiad o'r patrwm presennol isod ac mae cynigion ar gyfer datblygu yn y dyfodol ar ôl hynny.

#### *Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (CPTS)*

4.5. Mae'r rhan fwyaf o aelodau CPTS yn gynrychiolwyr i WCVA ac i 25 o Rwydweithiau Trydydd Sector fel a ganlyn:

|                                        |                                   |
|----------------------------------------|-----------------------------------|
| Addysg a Hyfforddiant                  | Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles |
| Anabledd                               | Ieuencid                          |
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid          | Lleiafrifoedd Ethnig              |
| Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth | Lles Anifeiliaid                  |
| Crefydd                                | Menter Gymdeithasol               |
| Cyfiawnder Cymunedol                   | Plant a Theuluoedd                |
| Cyflogaeth                             | Pobl Hŷn                          |
| Cymunedau                              | Rhyngwladol                       |
| Cyrff Rhyngol (Cynghorau Gwirfoddol    | Rhywedd                           |
| Sirol)                                 | Rhywioldeb                        |
| Chwaraeon a Hamdden                    | Tai                               |
| Eirioli a Chynghori                    | Y Gymraeg                         |
| Gwirfoddoli                            | Yr Amgylchedd                     |

4.6. Mae CPTS yn cynghori ynghylch gweithredu, monitro ac adolygu Cynllun y Sector Gwirfoddol gan helpu i bennu dangosyddion i werthuso'r Cynllun. Mae'n gyfrifol am hwyluso'r ymgynghori â sefydliadau perthnasol yn y Trydydd Sector a chyrff y Sector Cyhoeddus ynghylch cyflawni, gweithredu ac adolygu'r Cynllun. Mae'r

Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol hefyd fod CPTS yn cynnig trefniadau ar gyfer adolygu'r Cynllun ar ôl pob etholiad cyffredin i'r Cynulliad Cenedlaethol ac yn helpu yn y broses adolygu

4.7. Ar hyn o bryd mae tair prif agwedd ar waith CPTS:

- Dau gyfarfod y flwyddyn sy'n para un awr ar hyn o bryd, a rhag-gyfarfodydd i gynrychiolwyr y Trydydd Sector a gaiff eu trefnu gan WCVA.
- Ymgysylltu ehangach drwy rwydweithiau, lle y mae cynrychiolwyr y Trydydd Sector ar CPTS yn dosbarthu gwybodaeth am ei weithgareddau drwy eu rhwydweithiau eu hunain ac yn casglu barn drwy'r rhwydweithiau hynny wedyn i gyfrannu at waith CPTS.
- Ffrydiau gwaith thematig dan arweiniad grwpiau bach sy'n cynnwys cynrychiolwyr y Trydydd Sector a swyddogion Llywodraeth Cymru.

4.8. Mae cyfarfodydd CPTS yn cael eu cadeirio gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Trydydd Sector, sef y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar hyn o bryd. Weithiau bydd Gweinidogion eraill yn dod i'r cyfarfodydd i drafod materion sy'n ymwneud â'u portffolios a bydd Gweision Sifil yn bresennol bob amser. Mae cyfarfodydd CPTS yn agored i'r cyhoedd a bydd tua 30 o bobl yn dod iddynt fel arfer.

4.9. Cyn hynny roedd cyfarfodydd CPTS yn fwy nag awr o hyd ac yn para hanner diwrnod neu fwy, ond nid oedd y model hwn yn gynaliadwy. Er hynny, bydd aelodau'r Trydydd Sector yn cwrdd ar wahân hefyd cyn y prif gyfarfodydd. Ochr yn ochr â hynny, ceir cyfarfodydd ag aelodau CPTS a Swyddogion Llywodraeth Cymru.

4.10. Yn ei gyfarfodydd, bydd CPTS yn ystyried materion sy'n ymwneud â gweithredu Cynllun y Sector Gwirfoddol a/neu swyddogaethau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar y Trydydd Sector neu'n destun pryder iddo. Wedyn gall CPTS wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ac yn aml ceir adroddiadau gan y grwpiau Ffrydiau Gwaith (gweler isod).

4.11. Mae aelodau'r Trydydd Sector ar CPTS yn cael eu dewis i gynrychioli'r rhwydweithiau sydd wedi'u rhestru uchod ac mae disgwyl y bydd aelodau unigol yn helpu i rannu gwaith CPTS mor eang â phosibl. Drwy wneud hyn mae gwaith y cyngor yn ymestyn yn bellach o lawer na'r cyfarfodydd chwemisol.

4.12. Mae gan rai o gynrychiolwyr y rhwydweithiau fwy o adnoddau nag eraill ar gyfer cyflawni'r rôl ehangach hon. Drwy'r Cytundeb Partneriaeth mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu i Gronfa Cymorth Partneriaeth fod ar gael i helpu sefydliadau a fyddai'n ei chael yn anodd cyflawni'r rôl hon fel arall.

4.13. Yn y blynyddoedd diwethaf mae llawer o waith CPTS wedi'i gyflawni drwy grwpiau llai, sy'n cael eu galw'n ffrydiau gwaith ac yn cynnwys cynrychiolwyr y Trydydd Sector (aelodau CPTS gan mwyaf) a swyddogion Llywodraeth Cymru. Bydd y grwpiau hyn yn cwrdd ar wahân i brif gyfarfodydd CPTS ac yn adrodd yn ôl iddo. Y ffrydiau gwaith a gafwyd hyd yn hyn yw:

- Trosglwyddo Asedau
- Y Newid yn yr Hinsawdd

- Trefniadau ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn y dyfodol
- Effaith penderfyniadau/polisi Llywodraeth y DU ar Gymru
- Gweithlu'r Gwasanaethau Cyhoeddus
- Adolygiad Simpson
- Sgiliau'r Trydydd Sector

#### *Ministerial meetings*

4.14. Y brif elfen arall yn yr ymgysylltu uniongyrchol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yw'r patrwm o gyfarfodydd chwemisol a geir ar hyn o bryd rhwng Portffolio pob un o Weinidogion Cymru a chynrychiolwyr y Trydydd Sector ar faterion eu portffolio.

Mae Cynllun y Sector Gwirfoddol yn datgan y bydd y cyfarfodydd hyn:

- Yn adolygu gweithrediad y Cynllun a lefel y trafod a'r ymgynghori rhwng y rhwydwaith a'r Gweinidog priodol.
- Yn adolygu gweithgareddau'r gorffennol, yn ystyried materion y mae disgwyl iddynt godi ac yn trafod adnoddau.
- Fel arfer bydd un o'r cyfarfodydd yn gysylltiedig â Chylch Cynllunio Cyllideb Llywodraeth Cymru ac yn canolbwyntio ar faterion ariannu yn y portffolio dan sylw.

### **Crynodeb o'r Cynigion ar gyfer Ymgysylltu yn y Dyfodol**

#### *Cyfarfodydd CPTS*

4.15. CPTS sydd ar ganol y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector, felly mae'n hanfodol ei fod yn helpu i hwyluso deialog ar sail camau gweithredu a fydd yn dod â manteision i bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi CPTS ac yn dymuno gweld ei rôl yn datblygu mewn sawl ffordd.

4.16. Y patrwm presennol o ddau gyfarfod un awr bob blwyddyn, ynghyd â grwpiau ffrydiau gwaith, yw'r lleiaf sydd ei angen i sicrhau bod y corff hwn yn effeithiol. Dewis gwell fyddai darparu ar gyfer cyfarfodydd hirach rhwng CPTS a Llywodraeth Cymru. Rydym yn cynnig mabwysiadu patrwm lle y bydd Gweinidog(ion) fel arfer yn bresennol yng nghyfarfodydd CPTS ac yn eu cadeirio, a lle y bydd y cyfarfodydd hynny'n rhan o gyfarfodydd chwemisol hirach lle y bydd uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol drwy'r amser.

4.17. Dewis posibl arall yn lle hynny, neu i'w ategu, yw sefydlu Grŵp Arweinyddiaeth Strategol i CPTS a fydd yn cwrdd yn amlach â Gweinidogion neu swyddogion. Gellid cysylltu dull gweithredu o'r fath â chamau i ddatblygu rhwydwaith CPTS sydd wedi'u disgrifio yn y paragraff nesaf.



### *Rhwydwaith Ehangach CPTS*

4.18. Mae aelodaeth CPTS yn adnodd gwerthfawr ar gyfer cyfathrebu a lledaenu gwybodaeth i'r sector ehangach. Rydym yn derbyn bod y sector yn elwa'n barod drwy ddefnyddio'r rhwydwaith hwn, ond credwn fod cyfle i'r rhwydwaith gyfrannu'n fwy uniongyrchol at gryfhau perthynas y sector â Llywodraeth Cymru.

4.19. Er bod CPTS yn gorff mawr, ni all gynrychioli pob agwedd ar y Trydydd Sector yng Nghymru. Mae rhai o'r rhwydweithiau a restrwyd yn dod dan gyrff ambarél sefydledig sydd â chylch gwaith sy'n cynnwys y rhan honno o'r sector. Mewn achosion eraill ceir trefniadau llai syml lle y mae un sefydliad wedi'i ddewis i gynrychioli nifer o rai eraill sydd â nodau tebyg ond sydd hefyd, efallai, yn cynnwys elfennau croes neu gystadleuol. Mae'n anochel bod rhai sefydliadau ac is-sectorau'n teimlo nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol ar CPTS.

4.20. Mae pryder penodol hefyd nad yw CPTS yn cynnwys cynrychiolwyr rhanbarthol neu leol ar hyn o bryd, a'i fod yn hytrach yn cynnwys "cymunedau buddiant" sy'n cael eu cynrychioli gan asiantaethau i Gymru gyfan gan mwyaf. Mae rhai eithriadau rhannol i hyn gan fod un cynrychiolydd gan y cyrff rhyngol, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a chan fod cymunedau'n cael eu cynrychioli'n gyffredinol gan Datblygu Cymunedol Cymru. Mae'r dull hwn o weithredu'n groes braidd i natur y sector, sy'n cynnwys nifer mawr o sefydliadau lleol. Nid yw ychwaith yn llwyr adlewyrchu'r pwyslais y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar ddatblygu lleol a rhanbarthol a'i buddsoddi mewn rhaglenni lleol i drechu tlodi fel Cymunedau yn Gyntaf.

4.21. Credwn nad yw'n ymarferol nac yn ddymunol ehangu aelodaeth CPTS ymhellach, ond y byddai datblygu pellach ar ei waith rhwydweithio'n fodd i ddelio â'r pryderon a nodwyd a'i wneud yn gyfrwng mwy effeithiol ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector.

### *Ffrydiau Gwaith Thematig*

4.22. Mae ffrydiau gwaith presennol CPTS wedi'u datblygu ar sail pynciau ac anghenion dros y blynyddoedd ond nid yw'r broses o'u sefydlu wedi bod yn glir nac yn gyson. Mae'r dull hwn o weithredu wedi arwain at rywfaif o ddiffyg eglurder ynghylch pwrpas a gweithrediadau'r ffrydiau gwaith. Mae rhai ffrydiau gwaith wedi bod yn fwy dynamig ac effeithiol na'i gilydd ac mewn rhai achosion roedd perygl bod y ffrydiau gwaith yn dyblygu gwaith sy'n cael ei wneud mewn lleoedd eraill.

4.23. At ei gilydd, mae'r ffrydiau gwaith yn ffordd dda o weithio a chynnal deialog ar faterion sy'n peri pryder i'r CPTS ehangach. Yn unol â'r awgrymiadau uchod ar gyfer Grŵp Arweinyddiaeth Strategol i CPTS a datblygu'r rhwydwaith ehangach, credwn fod gwerth mewn cyflwyno fframwaith cliriach ar gyfer gweithrediadau ffrydiau gwaith CPTS.

4.24. O gael cylchoedd gwaith cliriach a mwy cyson, gallai ffrydiau gwaith chwarae mwy o ran wrth gryfhau ein perthynas a hyrwyddo cydweithio. Byddai'r cylchoedd gorchwyl newydd yn cynnwys strwythur, aelodaeth, cylch gwaith, canlyniadau

arfaethedig ac amserlenni ar gyfer gweithredu a disgrifiad clir o'r broses ar gyfer creu ffrydiau gwaith newydd.

### *Cyfarfodydd Gweinidogol*

4.25. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y cyfarfodydd rhwng Gweinidogion Cymru a chynrychiolwyr CPTS a'r sector ehangach. Yn ôl y profiad a gafwyd o'u cynnal yn y blynyddoedd diwethaf, mae lle i gredu bod ffyrdd gwell o ymgysylltu â Gweinidogion mewn ffordd amserol a pherthnasol. Un enghraifft yw cyfarfodydd i drafod materion penodol, yn hytrach na cheisio mynd i'r afael â holl agweddau cymhleth y portffolio mewn un cyfarfod chwemisol. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r sector drafod pynciau, syniadau a materion yn fwy amserol.

4.26. Y prif feysydd lle y gellir gwella'r patrwm presennol o gyfarfodydd er mwyn cael yr ymgysylltu mwyaf effeithiol rhwng y Trydydd Sector a Llywodraeth Cymru yw:

- Bod agendâu'n amrywiol iawn yn aml, gan eu bod yn adlewyrchu'r portffolios Gweinidogol, a bod hyn yn arwain at drafodaethau digyswllt lle y mae nifer o'r rhai sy'n bresennol heb ddiddordeb yn y rhan fwyaf o'r eitemau sy'n cael eu trafod.
- Bod nifer mawr yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd ond am nad oes fawr o ddilyniant o ran cynrychiolwyr rhwng y naill gyfarfod a'r llall gall fod yn anodd datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol.
- Bod materion yn cael eu codi i'w trafod weithiau i gyd-fynd ag amseriad y cyfarfodydd, yn hytrach nag am eu bod wedi cyrraedd pwynt lle y mae cyfiawnhad dros eu cynnwys yn y cyfarfodydd.

4.27. Mewn gwirionedd, bydd holl Weinidogion Cymru yn ymgysylltu'n aml iawn ac mewn pob math o ffyrdd â'r Trydydd Sector. Enghreifftiau o hyn yw cyfarfodydd ynghylch materion penodol, ymweld â sefydliadau a chymunedau, gohebu a phresenoldeb mewn digwyddiadau, cynadleddau etc. Mae'n bosibl bod y pwyslais presennol ar gyfarfodydd chwemisol yn golygu nad oes cydnabyddiaeth ddigonol ar hyn o bryd i'r mathau eraill o ryngweithio ac y byddai mwy o gydnabyddiaeth i hynny'n helpu i ddangos bod patrwm mwy eang ac amrywiol o ymgysylltu â'r sector.

4.28. Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig bod y Trydydd Sector yn gallu cwrdd â Gweinidogion i drafod materion sy'n peri pryder, a bod hyn yn rhan allweddol o'r berthynas hon. Y bwriad yw gwella'r ymgysylltu a sicrhau ei fod yn fwy penodol a'i fod yn dod â manteision yn fwy cyson i bawb sy'n gysylltiedig. Yn benodol, rydym yn derbyn y dylid cael darpariaeth mewn modelau diwygiedig ar gyfer ymgysylltu i drefnu cyfarfodydd amserol a pherthnasol â Gweinidogion (yn ogystal â chyfarfodydd â swyddogion os yw hynny'n fwy priodol).

4.29. Ar hyn o bryd, byddai cyfarfodydd o'r fath yn gyfle i gynnal trafodaeth rhwng rhai sy'n cynrychioli rhannau o'r Trydydd Sector a phob un o Weinidogion Cymru ar faterion o ddiddordeb cyffredin. Yn y dyfodol, fodd bynnag, ni fyddai ymdrech i gynnwys holl bortffolio'r Gweinidog mewn un cyfarfod a byddai'r cyfarfodydd yn ymwneud yn fwy penodol â chanlyniadau. Byddai amseriad y cyfarfodydd yn ategu'r

dull hwn o weithredu a byddai pwyslais penodol ar faterion sy'n ymwneud â'r Rhaglen Lywodraethu.

4.30. Dyma grynodedb o'r cynigion ar gyfer ymgysylltu:

- Y bydd cyfarfodydd ychwanegol neu hirach yn cael eu trefnu â swyddogion Llywodraeth Cymru i ategu cyfarfodydd CPTS.
- Y bydd Grŵp Arweinyddiaeth Strategol yn cael ei sefydlu ar gyfer CPTS.
- Y bydd aelodaeth CPTS yn cael ei diwygio i adlewyrchu safbwyntiau rhanbarthol.
- Y bydd ystyriaeth i ddatblygu dimensiwn rhanbarthol ar gyfer CPTS, efallai drwy ddefnyddio'r Gronfa Cymorth Partneriaeth i hwyluso patrymau newydd o ymgysylltu.
- Y bydd cylchoedd gorchwyl yn cael eu datblygu ar gyfer Ffrydiau Gwaith ar sail fframwaith cyffredinol newydd sy'n cynnwys meysydd allweddol.
- Y bydd y cyfarfodydd Gweinidogol chwemisol yn datblygu'n gyfarfodydd a drefnir i drafod materion sydd wedi'u pennu gan y Sector, neu gan Lywodraeth Cymru, ac sydd wedi'u derbyn yn feysydd y mae'n briodol eu cynnwys mewn cyfarfodydd Gweinidogol/Trydydd Sector.
- Y bydd Llywodraeth Cymru a CPTS yn monitro patrwm cyffredinol yr ymgysylltu â Gweinidogion dros amser, er mwyn nodi materion neu rannau o'r sector sydd heb eu cynrychioli a hysbysu Gweinidogion am hynny.

**Cwestiynau:**

**C.9. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer datblygu rhwydwaith CPTS a'r strwythur cyfarfodydd?**

**C.10. Mae'r fframwaith arfaethedig ar gyfer gweithgarwch Ffrydiau Gwaith CPTS yn ceisio sicrhau cyfraniad mwy effeithiol gan y Ffrydiau Gwaith. A oes gennych awgrymiadau eraill i wella a/neu ychwanegu at y cynnig?**

**C.11. A ydych yn cytuno y dylid cael patrwm mwy hyblyg o gyfarfodydd â Gweinidogion i drafod materion penodol o ddiddordeb/pryder cyffredin mewn ffordd amserol, yn lle'r cyfarfodydd chwemisol presennol â Gweinidogion ar bortffolios cyfan?**

## 5. Cydweithio ar Lefel Genedlaethol, Ranbarthol a Lleol

5.1. Nid yw'r bennod hon yn cynnwys nifer mawr o gynigion penodol ar gyfer newid ar ben y cynigion mewn penodau blaenorol. Er hynny, mae'n tynnu sylw at flaenoriaethau ac egwyddorion pwysig a fydd yn effeithio ar y cynigion hynny wrth eu rhoi ar waith. Mae hefyd yn awgrymu rhai ffyrdd o ddylanwadu ar y cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn y dyfodol. Thema gyffredin y bennod hon yw'r angen am feithrin dealltwriaeth gliriach o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn cydweithio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol sy'n adlewyrchu'r amgylchiadau presennol.

5.2. Mae hyn yn cynnwys y Rhaglen Lywodraethu; cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus; modelau comisiynu; gweithio rhanbarthol; datblygu cymunedol a chydnerthu cymunedol. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth ac nid yw'r ddogfen ymgynghori'n trafod pob maes yn fanwl. Er hynny, mae'n bwysig gweld y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn y cyd-destun cyffredinol hwn.

5.3. Drwy'r ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn am sylwadau am y berthynas rhwng y meysydd hyn gan ei bod yn debygol y bydd pob un ohonynt yn cael effaith ar y broses o ddiwygio Cynllun y Sector Gwirfoddol, ar y rolau sy'n datblygu yn seilwaith y Trydydd Sector, ac ar y ddeialog barhaus drwy'r dulliau ymgysylltu sydd wedi'u cynnig ym Mhennod 4.

### Y Rhaglen Lywodraethu

5.4. Ym Mhennod 1 nodwyd nad oes mynegiant sylweddol o bolisi presennol Llywodraeth Cymru yn y dogfennau polisi cyfredol sy'n ymwneud â'r Trydydd Sector. Nid yw hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y sector yn cymryd rhan eisoes mewn sawl agwedd ar y Rhaglen Lywodraethu, a bod cysylltiadau pwysig â phob un o'r portffolios Gweinidogol a phob un o adrannau Llywodraeth Cymru. Felly mae'n bwysig ac yn ddymunol bod y fframwaith polisi'n cael ei ddiweddarau i ddangos y berthynas hon a'i chryfhau ymhellach.

5.5. Gellid cyflawni hyn drwy ddiwygio Cynllun y Sector Gwirfoddol neu, er enghraifft, drwy'r fframwaith newydd ar gyfer ffyrddau gwaith Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector sydd wedi'i awgrymu ym Mhennod 4. Byddai model newydd ar gyfer ymgysylltu â Gweinidogion yn fodd i ganolbwyntio ar faterion a blaenoriaethau allweddol hefyd.

5.6. Wrth ddatblygu'r dull hwn o weithredu, byddwn yn rhoi sylw penodol i dair o'r blaenoriaethau trawsbynciol sy'n sail i Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru – Trechu Tlodi; Datblygu Cynaliadwy; a Chydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Byddwn hefyd yn rhoi sylw i'r ymrwymiad yn ein Strategaeth ar gyfer y Gymraeg, *laith fyw: iaith byw*, ac yn ein Cynllun Iaith Gymraeg, i brif ffrydio'r Gymraeg yn ein gwaith yn y maes hwn. Bydd y blaenoriaethau hyn yn amlwg ym mhob agwedd ar ein perthynas a'n cydweithio.

5.7. Bydd gofyn hefyd i'r fframwaith ddarparu ar gyfer newid yn y cyd-destun deddfwriaethol yng Nghymru. Wrth gyflwyno Biliau newydd bydd angen cyson i drafod eu heffaith ar y Trydydd Sector a sut y gall y sector gyfrannu at y trafodaethau

sy'n gysylltiedig â phob un. Bydd angen hwyluso'r broses hon drwy'r fframwaith arfaethedig a bydd yn rhaid iddo allu ymateb i heriau a chyfleoedd newydd.

5.8. Un enghraifft bwysig o hyn sydd eisoes ar waith yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae dyletswyddau dan y Mesur, sy'n cael eu galw'n safonau'r Gymraeg, yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Maes o law, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gallu gorfodi safonau ar y sefydliadau hynny sydd o fewn cwrdd y Mesur, gan gynnwys rhai o sefydliadau'r Trydydd Sector.

### **Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**

5.9. Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn hollbwysig bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n gwella'n barhaus. Mae'r Trydydd Sector yn bartner pwysig yn y gwaith hwn, gan ei fod yn gallu cyfrannu at ddylunio a chyflenwi amrywiaeth eang o wasanaethau mewn cymunedau lleol ac yn fwy eang. Mae amrywiaeth a chyrhaeddiad y sector yn asedau allweddol, gan ei fod yn manteisio ar sgiliau, brwdfrydedd ac ymroddiad y miloedd lawer o wirfoddolwyr yn ogystal â nifer sylweddol o weithwyr cyflogedig.

5.10. Mae gan y sector gyfoeth o brofiad i'w rannu wrth ddatblygu dulliau o weithredu lle y mae unigolion a chymunedau'n cael eu cyfrif yn bartneriaid ac yn asedau, drwy ganolbwyntio ar brofiad y defnyddiwr terfynol o wasanaethau.

5.11. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi rôl y Trydydd Sector wrth ddylunio a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen diffinio'r rôl hon yn gliriach mewn ffordd sy'n cydnabod annibyniaeth y sector.

5.12. Ar lefel fwy sylfaenol, mae awydd i gydweithio â'r Trydydd Sector, a defnyddwyr gwasanaethau, gofawyr a chymunedau, i bennu a gweithredu modelau newydd i gyflenwi gwasanaethau. O ganlyniad i newidiadau demograffig, y cynnydd yn anghenion a disgwyliadau unigolion, a'r pwysau ar arian cyhoeddus, bydd angen rhoi mwy o bwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar, ac ar gymorth a gwasanaethau cymunedol.

### **Comisiynu ac Ariannu**

5.13. Er mwyn cyflawni'r ymrwymadau sydd â blaenoriaeth yn y Rhaglen Lywodraethu, mae'r Trydydd Sector yn cael ei gomisiynu'n aml i gyflenwi gwasanaethau, drwy gyllid grant neu gontractau caffael. Pan fydd hyn yn digwydd, disgwylir i sefydliadau'r Trydydd Sector gyflawni eu hymrwymadau gan gydweithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill os ydynt yn cymryd rhan mewn trefniadau cydweithredol.

5.14. Weithiau bydd unigolion a sefydliadau yn y Trydydd Sector yn ymwneud â dylunio polisiâu a rhaglenni yn ogystal â'u cyflenwi. Nid yw hyn yn beth newydd ac nid yn y Trydydd Sector yn unig y ceir cymhlethdod o'r fath. Er hynny, mae'r gorgyffwrdd rhwng rolau'n gallu achosi dryswch a chamddeall. Oherwydd hynny, mae'n synhwyrol bod yr adolygiad hwn yn ceisio diffinio ein priod rolau'n gliriach a chael cytundeb ar y ffordd o wahanu swyddogaethau os bydd angen yn y dyfodol.

5.15. Bydd angen ystyried gwahanol fodolau ar gyfer comisiynu a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y broses hon. Y nod yw sicrhau gwasanaethau sy'n ymateb yn effeithiol i anghenion lleol drwy gydweithredu rhwng sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus. Felly mae'n bwysig bod yn gliriach ynghylch y ffordd y mae'r Trydydd Sector yn gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau wedi'u halinio'n well, osgoi dyblygu ac, yn enwedig, hybu cydweithio rhanbarthol â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus.

5.16. Mae comisiynu ar sail canlyniadau'n fodd i sicrhau bod y gwasanaethau a gomisiynir yn ymateb i'r heriau cynyddol hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ymchwilio i gyfleoedd i greu ffyrdd hyblyg o ddatrys problemau drwy gydweithredu ar ddylunio atebion arloesol sy'n canolbwyntio ar greu newid. Drwy gyfrannu gwybodaeth, arbenigedd a chreadigedd, gall y Trydydd Sector wella'r broses ddylunio.

5.17. Mae model sefydledig Llywodraeth Cymru ar gyfer comisiynu wedi'i gynnwys yn *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol – Framwaith Comisiynu Canllawiau ac Arferion Da*. Yn y model hwn, mae comisiynu'n digwydd drwy gylch o bedwar cam, sef Dadansoddi, Cynllunio, Sicrhau Gwasanaethau ac Adolygu. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i gyfrannu at ddatblygu'r syniadau hynny. Ar y sail hon bydd ein dull arfaethedig o gomisiynu ar sail canlyniadau'n dilyn y camau hyn:

- Diffinio'r broblem sydd i'w datrys a'r canlyniad arfaethedig (y newid angenrheidiol)
- Cyd-ddylunio dewis o opsiynau a fydd yn delio â'r materion a nodwyd a'u hasesu ar sail y canlyniad a ddiffiniwyd
- Ariannu opsiwn/dewis o opsiynau i sicrhau'r canlyniad arfaethedig (ar ôl cytuno ar y dull ariannu)
- Gwerthuso i weld beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wella a cheisio sicrhau ffordd o gyflwyno'r gwasanaeth hwnnw'n raddol dros dymor hirach (drwy broses caffael cystadleuol yn ôl pob tebyg).

5.18. Y bwriad yw cynnwys y syniad a'r dull hwn o weithredu mewn adran newydd mewn fersiwn ddiwygiedig o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yng Nghymru (gweler Pennod 7 hefyd).

### **Gweithio Rhanbarthol a Lleol**

5.19. Mae'r Sail Gydweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi'i phennu gan Lywodraeth Cymru yn rhannu Cymru'n chwe rhanbarth (Y Gogledd; Y Canolbarth a'r Gorllewin; Bae'r Gorllewin; Cwm Taf; Caerdydd a'r Fro; Gwent) er mwyn creu fframwaith sefydlog a chydlynol ar gyfer cydweithredu. Mae cryn weithgarwch eisoes gan y Trydydd Sector ar y sail gydweithredol hon sy'n cynnwys nifer o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol, ymysg eraill. Mae disgwyliad cyffredin hefyd y bydd sefydliadau'r Trydydd Sector yn datblygu mwy o weithio rhanbarthol yn y dyfodol, gyda'i gilydd a chydag asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r sail gydweithredol hon.

5.20. Er mwyn sicrhau bod y dull hwn o weithredu'n llwyddo, rydym yn cydnabod bod angen sicrhau bod y Trydydd Sector yn cael ei wahodd i gymryd rhan mewn cyrff strategol rhanbarthol. Er bod ein bwriad yn glir yn hyn o beth, mae natur amrywiol y Trydydd Sector a'r ffaith na all Llywodraeth Cymru orfodi cynrychiolaeth mewn strwythurau o'r fath na'i chymryd yn ganiataol, yn cymhlethu'r mater hwn. Er hynny, credwn fod modd goresgyn unrhyw rwystrau drwy gynnal deialog.

5.21. Rydym yn deall y bydd galw am adnoddau o bosibl i bennu modelau arloesol a chreadigol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, a bod posibilrwydd o gael budd mawr yn y dyfodol drwy fuddsoddi'n gynnar i wireddu'r syniadau hyn. Yn unol â hyn, y bwriad yw y bydd "Cronfa Arloesedd y Trydydd Sector" a gynigiwyd ym Mhennod 3, sy'n rhan o'r cyllid ar gyfer Seilwaith y Trydydd Sector o Ebrill 2014, yn cael ei darparu'n bennaf ar lefel ranbarthol. Amcan y Gronfa fydd hybu modelau newydd cydweithredol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau gan roi pwyslais ar gynnwys y Trydydd Sector.

5.22. Wrth ddatblygu gweithio rhanbarthol, bydd llawer o wasanaethau'n cael eu cyflenwi o hyd ar lefel yr awdurdod lleol ac mewn cymunedau lleol. Er ein bod yn derbyn ei bod yn bwysig osgoi dyblygu, mae hyn yn gwbl briodol. Bydd angen penderfynu ar y lefel fwyaf priodol ar gyfer cyflenwi er mwyn darparu gwasanaethau hygrych ar sail adnoddau a rennir.

5.23. Bydd awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill y sector cyhoeddus yn rhanddeiliaid pwysig yn y broses hon. Bydd rhan i'w chwarae gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol, Cyrff Cydweithredu Rhanbarthol a fforymau eraill wrth sicrhau bod rôl y Trydydd Sector wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ar lefel leol a rhanbarthol yn effeithiol ac yn gyfarwydd. Dyma reswm arall dros sicrhau bod y sector wedi'i gynrychioli'n briodol ar gyrrff o'r fath ledled Cymru.

5.24. Mae Compactau Trydydd Sector yn ffordd bwysig o feithrin deialog a gweithio mewn partneriaeth ar lefel yr awdurdod lleol. Yn y bennod nesaf rydym yn egluro ein syniadau a'n bwriadau ynghylch datblygu compactau o'r fath yng Nghymru yn y dyfodol.

## **Datblygu a Chydnerthu Cymunedau**

5.25. Mae'r Trydydd Sector wedi'i gynrychioli ym mhob cymuned yng Nghymru gan nifer dirifedi o grwpiau lleol, canghennau o sefydliadau gwirfoddol, cymdeithasau anffurfiol a gwaith gwirfoddol gan unigolion. Ceir gweithgareddau o bob math ar lefel leol a cheir budd aruthrol ohonynt o'u hystyried gyda'i gilydd. Mae'n bwysig felly na fydd y gweithgarwch hwn yn cael ei gymryd yn ganiataol ac y bydd grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr lleol yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen i ffynnu a chyflawni eu nodau.

5.26. Yn ogystal â chefnogi gwaith gwirfoddolwyr a sefydliadau unigol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gadarn hefyd i egwyddorion datblygu cymunedol. Mae hyn yn golygu adeiladu cymunedau drwy weithio mewn partneriaeth, hyfforddi pobl leol, cydymdrechu a buddsoddi lleol. Mae hyn yn neilltuoel o gymwys i'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n cael cymorth drwy Cymunedau yn Gyntaf a rhaglenni eraill fel Teuluoedd yn Gyntaf. Yn fwy cyffredinol,

fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod pob cymuned yn bwysig i'r bobl sy'n byw yno a bod pob man yn gallu elwa o ddatblygu cymunedol.

5.27. Mae adran yn y Cynllun Sector Gwirfoddol presennol ar ddatblygu cymunedol. Credwn y dylid cadw'r pwyslais hwn a'i ddiweddarau mewn fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun. Yn wir, rydym am gynyddu'r pwyslais ar weithredu lleol a meithrin dealltwriaeth fwy integredig o'r berthynas rhwng cymunedau daearyddol a chymunedau buddiant. Mae'r bwriad hwn wedi'i adlewyrchu yn ein cynigion ar gyfer datblygu Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ym Mhennod 4.

5.28. Mae angen canolbwyntio'n awr yn ein gwaith yn y maes hwn ar ddatblygu cymunedau cydnerth mewn cyfnod economaidd anodd pryd y mae llawer o bobl, yn enwedig y rhai sy'n fwyaf tlawd ac agored i niwed, yn ymdrechu i godi allan o dlodi ac ymdopi ag effaith toriadau ar wasanaethau a budd-daliadau. Rydym am sicrhau bod ymdrechion cymunedol yn canolbwyntio ar helpu pobl o'r fath ac y bydd sefydliadau cymunedol, yn eu tro, yn cael cymorth i wneud hynny.

### **Cwestiynau:**

**C.12. Pa gamau y gellir eu cymryd i sicrhau bod cyfraniad y Trydydd Sector at y Rhaglen Lywodraethu yn cael ei gydnabod a'i ddefnyddio'n fwyaf effeithiol?**

**C.13. Rydym yn cynnig bod y Trydydd Sector yn cymryd mwy o ran mewn gweithio rhanbarthol. Sut y byddech yn hoffi gweld hynny'n digwydd?**

**C.14. A ydych yn cytuno y dylid cynnwys y model comisiynu sydd wedi'i ddisgrifio yn 5.17 yn y Cod Ymarfer?**

**C.15. Mae datblygu cymunedol a chydnerthu cymunedol yn rhan bwysig o'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector. Ym mha ffordd yr ydych am weld ein cynigion yn y maes hwn yn cael eu datblygu?**



## 6. Compactau Lleol

6.1. Mae Compactau Lleol yn fodel sefydledig ar gyfer cryfhau a rheoli'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a'r Trydydd Sector, sy'n cael ei gynrychioli'n bennaf fel arfer gan Gyngorau Gwirfoddol Sirol. Mewn rhai achosion mae asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus fel Byrddau Iechyd a'r Heddlu'n rhan o Gompactau o'r fath hefyd. Ar hyn o bryd mae compactau wedi'u gwneud neu'n cael eu datblygu yn 21 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

6.2. Mae'r Trydydd Sector wedi mynegi pryderon o'r blaen yn ei adolygiad blynyddol o Gompactau Lleol (y bydd yn ei gyflwyno i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector) fod rhai awdurdodau lleol yn llai ymroddedig nag y dylent fod yn ei farn ef wrth gyflawni compactau a chynnwys y Sector wrth ddylunio polisïau lleol. Yn gyffredinol, mae'r Sector wedi nodi bod yr ymroddiad gan bartneriaid y Sector Cyhoeddus yn anghyson.

6.3. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn barod i ystyried y posibilrwydd o greu gofyniad statudol am wneud compactau ystyrlon os ceir tystiolaeth bod angen gorfodi awdurdodau lleol i ddatblygu compactau lleol am fod perswâd wedi methu.

6.4. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried cyflwyno Bil Compactau Statudol y Trydydd Sector (Cymru) yn rhan o'r calendr deddfwriaethol ar gyfer y tymor presennol. Comisiynwyd prosiect ymchwil i'w helpu i benderfynu a ddylai gyflwyno gofyniad statudol am wneud compactau rhwng awdurdodau lleol Cymru a sefydliadau Trydydd Sector yn eu hardal.

6.5. Penodwyd Practical Wisdom R2Z a Wavehill Cyf i ymchwilio i effeithiolrwydd Compactau Lleol; i'r ffactorau posibl ar gyfer llwyddiant a diffyg llwyddiant; a'r manteision ac anfanteision sydd mewn gofyniad o'r fath. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 18 Mawrth 2013 ac mae ar gael yn

<http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/case-statutory-compacts-between-welsh-local-authorities-third-sector/?lang=cy>

6.6. Mae'r adroddiad yn nodi'r casgliadau o'r astudiaeth ynghyd ag argymhellion i Lywodraeth Cymru, ac yn asesu barn gyfreithiol am y manteision a'r peryglon o osod gofyniad statudol am ddatblygu compactau ystyrlon gan awdurdodau lleol.

6.7. Mae'r dyfyniad canlynol o'r adroddiad yn crynhoi'r prif gasgliadau ac argymhellion:

*"Mae tri opsiwn cyffredinol ymysg y rhai sydd i'w hystyried:*

- Gwneud dim;
- Datblygu fframweithiau presennol cyfreithiol ac ar sail compact i sicrhau bod mwy o reolaeth neu ddylanwad dros gompactau;
- Cyflwyno ymrwymadau statudol newydd mewn perthynas â chompactau.

6.8. Argymhelliad yr adroddiad oedd gwrthod yr opsiwn cyntaf ar y sail *'bod gormod o wneud dim wedi cyfrannu at broblemau anghysondeb o ran gweithrediad'*. Roedd yn awgrymu *'cadw'r trydydd opsiwn wrth gefn a'i weithredu'n unig os na bydd unrhyw beth arall yn gweithio'*. Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai'r ail opsiwn – cryfhau'r fframwaith presennol ar gyfer compactau – oedd yr un mwyaf deniadol.

6.9. Os mabwysiedir yr ail opsiwn hwn, fel y mae'r adroddiad yn argymhell, ni fyddai angen cael deddfwriaeth newydd ar unwaith ond byddai Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei bod wedi ymrwymo o hyd i fodel y compact ac yn annog awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i ddatblygu a chryfhau'r dull hwn o ymgysylltu â'r Trydydd Sector. Mae'r adroddiad yn nodi nad yw opsiynau sydd ar gael wedi'u hystyried yn llawn hyd yma. Rhai opsiynau posibl, yn ôl yr adroddiad, yw:

- cynnig cyfarwyddyd os yw diffyg ymgysylltu digonol â sefydliadau'r Trydydd Sector yn amharu ar y gallu i gyflawni dyletswyddau statudol;
- datblygu dangosyddion perfformiad priodol ar gyfer Compactau Lleol;
- monitro cynnydd yn fwy cyson ac effeithiol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad hefyd yn awgrymu y gallai fod yn haws gwneud Compactau Lleol yn fwy effeithiol drwy ddefnyddio opsiynau o'r fath na thrwy gyflwyno deddfwriaeth newydd.

6.10. Mae swyddogion polisi Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr adroddiad wrth ddatblygu polisi a llunio cynigion ar gyfer polisi. Ein bwriad ar hyn o bryd yw symud ymlaen ar sail yr ail opsiwn sydd wedi'i awgrymu yn yr adroddiad. Byddai angen mwy o drafodaethau ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus, yn ogystal â'r Trydydd Sector ei hun, i ystyried ffyrdd posibl o weithredu opsiynau fel y rhai uchod er mwyn creu fframwaith mwy cyson ledled Cymru. Bydd ystyriaeth bellach hefyd i'r posibilrwydd o ddatblygu model rhanbarthol ar gyfer gweithio drwy gompactau.

6.11. Os ceir cefnogaeth i'r dull hwn o weithredu, **ni fydd** Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen â Bil Compactau Statudol y Trydydd Sector (Cymru) ar hyn o bryd.

6.12. Roedd Llywodraeth Cymru wedi bwriadu ymgynghori ar wahân ar fater Compactau Lleol ond, gan fod y materion hyn yn gorgyffwrdd â'i gilydd i raddau helaeth, mae cwestiynau am Gompactau wedi'u cynnwys yma.

## Cwestiynau

**C.16. A ydych yn credu bod rhan i'w chwarae gan Gompactau Lleol, sydd wedi'u disgrifio yn y bennod hon, wrth ffurfio'r berthynas rhwng y Trydydd Sector a'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru?**

**C.17. A ydych yn cytuno â'r cynnig ("Opsiw 2") i ddatblygu fframweithiau presennol er mwyn cael mwy o reolaeth neu ddylanwad dros gompactau lleol ac i beidio â chyflwyno rhwymedigaethau statudol newydd oni bai fod y ffordd hon o weithredu'n methu dros amser?**

## 7. Dogfennau Fframwaith

7.1. Rhan o'r broses o adnewyddu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector fydd diweddaru'r dogfennau allweddol sy'n sail i'r berthynas honno i'w gwneud yn gwbl gyfredol.

7.2. Yn y bennod olaf hon, rydym yn trafod y dogfennau sy'n allweddol i sicrhau sylfaen gadarn i'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn y dyfodol.

7.3. Y dogfennau allweddol ar hyn o bryd yw:

- Cynllun y Sector Gwirfoddol (wedi'i ddiwygio ddiwethaf yn 2004)
- Y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector (wedi'i ddiwygio ddiwethaf yn 2009)
- *Y Trydydd Dimensiwn* – Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol (2008)
- Cytundeb partneriaeth y Trydydd Sector (wedi'i ddiwygio yn 2012)

### Cynllun y Sector Gwirfoddol

7.4. O blith y dogfennau hyn, Cynllun y Sector Gwirfoddol yw'r bwysicaf am ei fod wedi'i sefydlu dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac mae'r holl ddogfennau eraill yn deillio ohono. Mae'r Cynllun yn disgrifio'r egwyddorion cyffredinol a'r gwerthoedd cyffredin sy'n rheoli'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru ac mae'n cynnwys penodau ar y canlynol:

- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r Trydydd Sector, gan gynnwys manylion am Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a chyfarfodydd Gweinidogol.
- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â'r Trydydd Sector, gan gynnwys y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.
- Polisi ar wirfoddoli.
- Polisi ar ddatblygu cymunedol.

7.5. Mae rhai cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon a fyddai, o'u derbyn, yn galw am wneud newidiadau yng Nghynllun y Sector Gwirfoddol. Felly, ar ôl cwblhau'r broses ymgynghori, rydym yn bwriadu adolygu'r Cynllun yn llwyr a chyhoeddi fersiwn newydd a fydd yn adlewyrchu'r trefniadau newydd.

7.6. Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cynnal Cynllun Gweithredu i fonitro perfformiad ar sail y Cynllun. Hon oedd y sail ar gyfer datblygu *Y Trydydd Dimensiwn* a gyhoeddwyd yn 2008 ac mae'n cynnwys cynllun gweithredu manwl.

7.7. Nid oes bwriad i ddatblygu fersiwn newydd o *Y Trydydd Dimensiwn* na chynllun gweithredu newydd ar wahân. Y bwriad, yn hytrach, yw defnyddio nifer o'r offer sydd wedi'u crybwyll eisoes yn y ddogfen hon i gyflawni swyddogaethau'r Cynllun Gweithredu mewn ffordd fwy hyblyg. Bydd hyn yn cynnwys:

- Y Cynllun Cyflawni Integredig sydd newydd gael ei ddatblygu (gweler 3.11-12 a hefyd **Error! Reference source not found.** isod)
- Yr Adroddiad Blynyddol ar Gynllun y Sector Gwirfoddol a gaiff ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol bob blwyddyn.
- Adroddiadau cydgysylltiedig o ffrydiau gwaith Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (gweler 4.23)

7.8. Os cytunir ar y dull hwn o weithredu, caiff ei gynnwys yn y Cynllun Sector Gwirfoddol diwygiedig: bydd yn ffordd hyblyg a dynamig o fonitro effeithiolrwydd y cynllun ac o gynllunio camau gweithredu i ddelio ag unrhyw faterion sy'n codi dros amser.

### **Y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector**

7.9. Mae angen diweddaru'r ddogfen hon ac ni ddylid rhoi'r gorau iddi ar unrhyw gyfrif. Mae'r ddogfen bresennol wedi dyddio mewn sawl maes pwysig. Er enghraifft

- Mae Canolfan Ragoriaeth Grantiau wedi'i sefydlu'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ac mae'n chwarae rhan bwysig yn y maes hwn yn awr sydd heb ei dangos yn y Cod presennol.
- Er bod y Cod presennol yn cyfeirio at grantiau a gwasanaethau a gaffaelir, nid oes eglurhad o'r broses ar gyfer penderfynu pa fodel comisiynu a ddefnyddir.
- Mae cyfeiriadau at fenthyciadau wedi dyddio ac maent yn gamarweiniol
- Mae'r cyngor manwl am brosesau ymgeisio etc. wedi dyddio i ryw raddau.

7.10. Mewn trafodaethau diweddar yn Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth CPTS, tynnwyd sylw at ffyrdd eraill o gryfhau'r Cod a'i wneud yn fwy defnyddiol. Felly rydym yn bwriadu datblygu fersiwn ddiwygiedig o'r Cod Ymarfer, ar ôl ystyried y syniadau hyn a thrwy gydweithio'n agos â'r Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth a'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau drwy gydol y broses. Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y newidiadau canlynol yn y Cod diwygiedig:

- Ymhelaethu ar rai o'r egwyddorion sydd wedi'u hegluro'n fyr ar ddechrau'r Cod presennol i ategu negeseuon allweddol a rhoi esboniad cliriach o gysyniadau pwysig fel Adennill Costau Llawn a modelau comisiynu.
- Bydd esboniad cliriach yn y Cod diwygiedig o ystyr "amgylchiadau eithriadol" sy'n golygu na ellir dilyn y cod mewn rhai achosion a'r broses sydd i'w dilyn mewn achosion o'r fath.
- Bydd fersiwn ar-lein o'r Cod sy'n cynnwys dolennau at ddogfennau perthnasol eraill sydd â mwy o fanylion am rai materion dan sylw. Drwy gael fersiwn ar-lein, gallai'r Cod fod yn fwy cryno a chliir.

- Ni fydd fformat “cwestiwn ac ateb” y Cod presennol yn cael ei gadw yng nghorff y fersiwn ddiwygiedig. Awgrymwyd dull arall a fydd yn rhestru disgwyliadau a gofynion y corff ariannu (Llywodraeth Cymru) a’r sefydliadau sy’n derbyn cyllid, ar ffurf model dwyffordd. Bydd yr opsiwn hwn, ac opsiynau eraill ar gyfer fformat y Cod diwygiedig, yn cael eu hystyried ymhellach cyn ei gwblhau
- Bydd yr agweddau ar y Cod sy’n ymwneud â monitro a chydymffurfiaeth yn cael eu diweddarau a’u dangos yn glir er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol.

7.11. Rydym yn glir iawn, yn benodol, y bydd y pwyslais ar gydymffurfio â’r Cod Ymarfer yn ystyriaeth allweddol wrth ei ddiwygio, yn ogystal â monitro cydymffurfiaeth â’r Cod yn y dyfodol.

### **Y Cytundeb Partneriaeth, y Cynllun Cyflawni Integredig a’r Grant Seilwaith**

7.12. Hyd yn ddiweddar, roedd Cytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector a’r cynnig o Grant Seilwaith yn rhan o un ddogfen. Nid oedd y trefniant hwn yn unol â dull presennol Llywodraeth Cymru o reoli grantiau a chyhoeddwyd y ddau ar wahân cyn cytuno ar gyllid interim ar gyfer 2013-14.

7.13. Cafwyd gwaith pellach ar ôl hynny i ddatblygu’r Cynllun Cyflawni Integredig (gweler 3.11-12) sy’n cynnwys y fframwaith ar gyfer monitro’r grant seilwaith. Fel y nodwyd ym Mhennod 4, credwn fod hyn yn sail dda i drefniadau ar gyfer ariannu’r seilwaith yn y dyfodol ac rydym yn bwriadu ei gadw a’i ddatblygu ymhellach

7.14. Credwn fod modd cynnwys sylwedd y Cytundeb Partneriaeth newydd mewn Cynllun Sector Gwirfoddol diwygiedig. Y fantais o hyn yw mai nifer bach o ddogfennau allweddol a fyddai ar ôl wedyn ac y gellid eu hysbysebu a’u monitro mewn ffordd effeithlon a chydlynol. Y dogfennau hyn fyddai:

- Fersiwn ddiwygiedig o Gynllun y Sector Gwirfoddol
- Fersiwn ddiwygiedig o’r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu’r Trydydd Sector
- Telerau ac Amodau’r Grant Seilwaith a fyddai’n cynnwys y Cynllun Cyflawni Integredig

7.15. Y bwriad yw cyhoeddi’r holl ddogfennau hyn cyn diwedd 2013.

### **Cwestiynau:**

**C.18. A ydych yn cytuno y dylai Cynllun y Sector Gwirfoddol gael ei ddiwygio fel yr awgrymwyd?**

**C.19. A ydych yn cytuno bod angen cryfhau a diweddarau’r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu’r Trydydd Sector? A oes angen rhoi sylw i faterion penodol wrth ei ddiwygio?**

**C.20. A ydych yn cytuno y dylai’r Cynllun Gweithredu presennol gael ei ddisodli gan y Cynllun Cyflawni Integredig, yr Adroddiad Blyneddol a Fframwaith y Ffrydiau Gwaith?**